

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y BIL TYBACO A FÊPS

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.
2. Cyflwynwyd y Bil Tybaco a Fêps (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Tachwedd 2024. Mae'r Bil ar gael yma: <https://bills.parliament.uk/bills/3879/publications>

Yr Amcan(ion) Polisi

3. Amcanion polisi datganedig y Bil yw cyflwyno mesurau i atal pobl rhag dechrau ysmegu yn y lle cyntaf a dod yn gaeth i gynhyrchion tybaco, yn ogystal â chyflwyno mesurau i leihau'r arfer o fepio ymhlith pobl ifanc. Bydd y mesurau craidd yn y Bil yn gwneud y canlynol:
 - creu cenhedlaeth ddi-fwg, gan ddod â gwerthu cynhyrchion tybaco i ben yn raddol ledled y wlad a thorri'r cylch caethiwed ac anfantais drwy ei gwneud yn drosedd gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009;
 - galluogi rheoleiddio i gryfhau'r gwaharddiad presennol ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus er mwyn lleihau niweidiau ysmegu goddefol, yn enwedig o amgylch plant, teuluoedd a phobl sy'n agored i niwed.
 - gwahardd yr arfer o frandio, hyrwyddo a hysbysebu fêps a chynhyrchion nicotin yn fwriadol i blant, er mwyn atal y genhedlaeth nesaf rhag mynd yn gaeth i nicotin;
 - cryfhau gweithgarwch gorfodi er mwyn helpu i roi'r mesurau uchod ar waith a rhoi pwerau i gyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer manwerthu tybaco, cynhyrchion ysmegu llysieuol, papurau sigarêts, fêps a chynhyrchion nicotin yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac estyn y cynllun cofrestru manwerthu yn yr Alban.
 - mae'r Bil yn cyd-fynd â chymorth ehangach ar draws y gwasanaeth iechyd i helpu ysmygwyr i roi'r gorau iddi.
4. Mae'r Bil yn addasu, yn diwygio, yn estyn, ac yn ailddeddfu sawl mesur sydd eisoes ar waith i reoli tybaco a fepio er mwyn creu fframwaith deddfwriaethol cyson. Bydd y newidiadau hyn yn helpu i sicrhau bod y gyfraith yn cael ei chymhwyso'n gyson, yn cau bylchau ac yn hwyluso darllenadwyedd a'r camau gorfodi dilynol. Nod cyffredinol y Bil yw cysoni'r darpariaethau ledled y DU, gan adeiladu ar y fframweithiau deddfwriaethol presennol sy'n gymwys ledled y DU.

Crynodeb o'r Bil

5. Noddir y Bil gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
6. Mae wyth rhan i'r Bil. Mae Rhan 1 o'r Bil yn rhychwantu Cymru a Lloegr ac mae'n ymwneud â gwerthu a dosbarthu'r cynhyrchion o dan gyfyngiad. Mae Rhan 2 yn rhychwantu'r Alban ac mae Rhan 3 yn rhychwantu Gogledd Iwerddon. Mae Rhannau 4 a 5 o'r bil yn rhychwantu'r DU gyfan. Mae Rhan 4 yn ymwneud â'r pwerau atafaelu a chadw mewn perthynas â snŵs etc. Mae Rhan 5 yn ymwneud â gofynion cynnyrch, safonau a gwybodaeth. Mae Rhan 6 yn rhychwantu'r DU gyfan ac yn ymwneud â gofynion hysbysebu a noddi. Mae Rhan 7 yn rhychwantu'r DU gyfan ac mae'n cynnwys darpariaethau ynglŷn â manau di-fwg, manau di-fêp a manau lle y gwaherddir tybaco wedi'i gynhesu yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae Rhan 8 o'r Bil yn rhychwantu'r DU gyfan ac mae'n cynnwys darpariaethau safonol sy'n helpu'r ddeddfwriaeth i weithredu'n effeithiol.
7. Mae darpariaethau allweddol y Bil, i'r graddau y maent yn rhychwantu Cymru, yn cwmpasu meysydd cynhyrchion tybaco a phapurau sigarêts, cynhyrchion ysmegu llysieuol, snŵs, cynhyrchion fepio a nicotin, hysbysebu a noddi, trwyddedu manwerthu, a gorfodi. Yn ogystal â darpariaethau newydd, mae'r Bil hefyd yn anelu at ailddeddfu a chydgrynhai deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â thybaco a chynhyrchion fepio.

Tybaco

Er mwyn creu Teyrnas Unedig sy'n ddi-fwg a lleihau niweidiau ysmegu i'r eithaf, bydd y Bil yn gwneud y canlynol:

- a. creu cenhedlaeth ddi-fwg drwy roi terfyn ar werthu cynhyrchion tybaco yn y wlad yn raddol fel na fydd y cynhyrchion hyn byth yn cael eu gwerthu'n gyfreithlon i blant a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009. Bydd y Bil, felly, yn gwneud newidiadau i'r oedran gwerthu cyfreithiol ar gyfer cynhyrchion tybaco er mwyn atal pobl rhag dechrau ysmegu yn y lle cyntaf. O 1 Ionawr 2027, bydd yn drosedd gwerthu cynhyrchion tybaco, cynhyrchion ysmegu llysieuol a phapurau sigarêts i unrhyw un a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009. Bydd y pŵer presennol i godi'r oedran gwerthu tybaco i oedran heb fod yn hŷn na 18 (adran 13 o Ddeddf Iechyd 2006) yn cael ei ddiddymu ar ôl i'r oedran gwerthu newydd gael ei gyflwyno gan y Bil a bydd y drosedd bresennol ynglŷn â'r oedran gwerthu (adran 7 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933) yn cael ei diddymu a'i hailddatgan yn y Bil yn gyson â'r darpariaethau newydd;
- b. ei gwneud yn drosedd i berson sy'n 18 oed neu'n hŷn brynu neu geisio prynu unrhyw gynnyrch o'r fath ar gyfer rhywun a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009; diddymu ac ailddatgan y drosedd bresennol ynglŷn â phrynu drwy ddirprwy sy'n gysylltiedig â thybaco (adran 91 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014), er mwyn bod yn gyson â'r darpariaethau newydd;

- c. diwygio gofynion yr hysbysiad oedran gwerthu; bydd angen i fanwerthwyr tybaco sicrhau bod eu hysbysiadau oedran gwerthu yn cyd-fynd â'r cyfyngiadau oedran gwerthu newydd ac yn dweud "Mae'n anghyfreithlon gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009" i gynorthwyo'r gorfodi ac i ddarparu negeseuon clir; bydd gofyn i arwyddion fod yn ddwyieithog yng Nghymru; bydd y darpariaethau presennol ynghylch yr hysbysiad oedran gwerthu (adran 4 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Amddiffyn rhag Tybaco) 1991) yn cael eu diddymu a'u hailddatgan yn y Bil i gyd-fynd â'r darpariaethau newydd;
- d. diogelu'r cyhoedd rhag niweidiau ysmegu ail-law (ysmygu goddefol) drwy ddarparu pŵer i gryfhau ac ehangu'r ddeddfwriaeth ddi-fwg bresennol o fannau cyhoeddus o dan do i fannau cyhoeddus yn yr awyr agored mewn rhannau eraill o'r DU. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud manau ychwanegol yn ddi-fwg eisoes drwy'r pŵer yn adran 13 o Ddeddf Lechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017);
- e. diddymu ac ailddatgan y troseddau presennol ynglŷn â gwerthu tybaco o beiriannau gwerthu (gan eu hestyn i gynnwys papurau sigarêts), a gwerthu sigarêts heb eu pecynnu, (adrannau 3 a 3A o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Amddiffyn rhag Tybaco) 1991);
- f. bydd y drosedd o roi tybaco i bobl o dan oed yng Nghymru (Pennod 4, Rhan 3 o Ddeddf Lechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017), nad yw wedi dod i rym eto, yn cael ei diweddarau er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r oedran gwerthu newydd ar gyfer cynhyrchion tybaco, papurau sigarêts a chynhyrchion ysmegu llysiuol;
- g. darparu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i estyn darpariaethau yn Rhan 1 sy'n gymwys i gynhyrchion tybaco i gynnwys dyfeisiau ac eitemau sy'n gysylltiedig â thybaco sy'n ffurfio rhan o'r dyfeisiau hynny,
- h. ailddatgan pwerau a gofynion presennol sy'n ymwneud â phecynnu a hysbysebu cynhyrchion tybaco (adran 94 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014), disodli'r gwaharddiad presennol ar ddisodli'r am ddim (a chynnwys gostyngiadau) at ddiben hyrwyddo cynhyrchion tybaco (adran 9 o Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002) ac estyn ei rychwant i bapurau sigarêts a chynhyrchion ysmegu llysiuol, darparu pwerau ar gyfer rheoliadau newydd ynghylch arddangos papurau sigarêts a chynhyrchion ysmegu llysiuol a chynhyrchion tybaco, eu prisiau a phecynwaith manwerthu gwag (gan ddisodli'r cyfyngiadau arddangos a'r pwerau presennol ar gyfer tybaco o dan Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002), ac ailddeddfu gwaharddiad ar gynhyrchu a chyflenwi snŵs.

Cynhyrchion fepio a chynhyrchion nicotin eraill

Er mwyn atal fêps (a elwir hefyd yn sigarêts electronig, e-sigarêts, systemau darparu nicotin electronig (ENDS), neu anweddwyr) a chynhyrchion nicotin i ddefnyddwyr (megis pyrsiau nicotin) rhag cael eu hyrwyddo, eu brandio a'u hysbysebu'n fwiadol i blant, bydd y Bil yn gwneud y canlynol:

- a. gwahardd cynhyrchion fepio a chynhyrchion nicotin rhag cael eu gwerthu i unigolion o dan 18 oed a gwahardd dosbarthu'r cynhyrchion hyn am ddim a'u gwerthu am bris gostyngol.
- b. gwahardd cytundebau hysbysebu, hyrwyddo a noddi ar gyfer fêps a chynhyrchion nicotin, gan adlewyrchu'r cyfyngiadau effeithiol presennol ar dybaco;
- c. darparu pwerau i wneud rheoliadau i reoleiddio cyflasynnau, pecynwaith a safonau cynnyrch eraill fêps a chynhyrchion nicotin;
- d. darparu pwerau i reoleiddio'r dull o arddangos fêps a chynhyrchion nicotin, eu prisiau, a phecynwaith manwerthu gwag;
- e. gwahardd presenoldeb peiriannau gwerthu fêps a chynhyrchion nicotin;
- f. cyflwyno pwerau i gyflwyno cynllun cofrestru newydd a chadarnach ar gyfer pob math o fêps a chynhyrchion nicotin. Byddai'r cynllun hwn hefyd yn cynnwys cynhyrchion tybaco a fêps nad ydynt yn cynnwys nicotin.
- g. cyflwyno pwerau i estyn cyfreithiau di-fwg fel y gallent hefyd wahardd y defnydd o fêps a chynhyrchion tybaco wedi'i gynhesu mewn ardaloedd penodedig lle y gwaherddir ysmygu.
- h. diwygio'r drosedd bresennol o roi tybaco i bobl o dan oed yng Nghymru (Pennod 4, Rhan 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017), nad yw mewn grym eto, i gynnwys pob math o gynhyrchion fepio a chynhyrchion nicotin, cynhyrchion ysmygu llysieuol a phapurau sigarêts yn unol â'r darpariaethau newydd yn y Bil.

Pob cynnyrch sydd o dan gyfyngiad

- a. Ehangu'r gofynion presennol i gynhyrchwyr neu fewnforwyr ddarparu gwybodaeth i'r holl gynhyrchion o dan gyfyngiad;
- b. Darpariaethau i'w gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr gynnal astudiaeth o gynnyrch ac adrodd ar y canlyniadau;
- c. Darpariaethau i'w gwneud yn ofynnol profi cynhyrchion i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau cynnyrch;
- d. Ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr neu fewnforwyr fod â phrosesau ar waith i gasglu gwybodaeth am effaith y cynhyrchion ar iechyd a diogelwch pobl;
- e. Estyn y gwaharddiad ar hysbysebu cynhyrchion sydd o dan gyfyngiad i ddarparwyr gwasanaethau rhyngwryd;

- f. Estyn y gwaharddiad hysbysebu sy'n gymwys i ddarlledwyr teledu a radio a gwasanaethau cynnwys 'ar alw' eraill, i'r holl gynhyrchion sydd o dan gyfyngiad.
- g. Pŵer i estyn y darpariaethau hysbysebu a nawdd, a'r gwaharddiad hysbysebu sy'n gymwys i ddarlledwyr teledu a radio etc, i gynhyrchion tybaco wedi'i gynhesu.

Gorfodi

Bydd y Bil yn cryfhau gweithgarwch gorfodi er mwyn atal tybaco a fêps rhag cael eu gwerthu i unigolion o dan oed drwy'r canlynol:

- a. rhoi'r pŵer i awdurdodau gorfodi yng Nghymru a Lloegr i roi hysbysiadau cosb benodedig o £200 am werthu o dan oed, gwerthu drwy ddirprwy, a dosbarthu am ddim bapurau sigarêts a thybaco, cynhyrchion ysmegu llysieuol, fepio a nicotin, torri cyfyngiadau hysbysiadau oedran gwerthu a chyfyngiadau arddangos, ac i roi hysbysiadau cosb benodedig o £2,500 am droseddau mewn cysylltiad â thrwyddedu;
- b. rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i newid swm cosbau penodedig er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod yn gymesur;
- c. diweddarau'r gyfundrefn bresennol o hysbysiadau cosb benodedig yn yr Alban i'w hestyn i gwmpasu pob cynnyrch tybaco, fepio a nicotin, ac i gynnwys troseddau ynglŷn â dosbarthu cynhyrchion tybaco, fepio a nicotin am ddim;
- d. diweddarau deddfwriaeth Gogledd Iwerddon fel y bydd y gyfundrefn bresennol o hysbysiadau cosb benodedig yn cael ei hestyn i gwmpasu pob cynnyrch tybaco, fepio a nicotin, ac yn cynnwys troseddau ynglŷn â dosbarthu cynhyrchion tybaco, fepio a nicotin am ddim ac arddangos;
- e. nodi ei fod yn amddiffyniad i fanwerthwyr a gyhuddir o drosedd sy'n ymwneud ag oedran gwerthu brofi eu bod wedi cadarnhau prawf adnabod y darpar gwsmer a bod y prawf yn profi bod y cwsmer o oedran cyfreithiol, a thrwy hynny helpu manwerthwyr i gadarnhau prawf adnabod;
- f. darparu pwerau i gyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer manwerthu cynhyrchion tybaco, cynhyrchion ysmegu llysieuol, papurau sigarêts, cynhyrchion fepio a nicotin yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac ehangu'r cynllun cofrestru manwerthwyr yn yr Alban;
- g. cadw elfennau o'r gyfundrefn orfodi bresennol ar gyfer rheoliadau tybaco a fêps, gan gynnwys dirwyon troseddol yn ychwanegol at orchmynion mangre o dan gyfyngiad a gorchmynion gwerthu o dan gyfyngiad i droseddwyr mynych.

- h. Galluogi awdurdodau pwysau a mesurau lleol i ddefnyddio'r pwerau gorfodi mewn llys a nodir yn Neddff Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr 2024 i orfodi darpariaethau'r Bil a Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016.
8. Cefnogir y Bil gan llywodraethau pob un o'r pedair gwlad, sy'n rhannu'r uchelgais o gael gwared ag ysmegu a mynd i'r afael â fepio ymhlith pobl ifanc. Er mai'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Lloegr (DHSC) oedd yn gyfrifol am arwain y broses o ddatblygu'r Bil, cafwyd cydweithrediad cryf a pharhaus rhwng Llywodraeth Cymru, DHSC, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wrth ddatblygu'r polisi a'r Bil.
9. Uchelgais Llywodraeth Cymru yw i Gymru fod yn ddi-fwg erbyn 2030: <https://www.llyw.cymru/strategaeth-rheoli-tybaco-i-gymru>. Mae ein Cynllun Cyflawni, Tuag at Gymru Ddi-fwg, yn nodi'r camau sy'n cael eu cymryd i weithio tuag at yr uchelgais honno: <https://www.llyw.cymru/strategaeth-rheoli-tybaco-i-gymru-cynllun-cyflawni>
10. Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddwyd Adolygiad Annibynnol Khan o uchelgais llywodraeth y DU i fod yn ddi-fwg erbyn 2030: <https://www.gov.uk/government/publications/the-khan-review-making-smoking-obsolete>.
Gwnaeth yr adolygiad 15 o argymhellion er mwyn sicrhau cymdeithas ddi-fwg. Un o'r rhain oedd y dylai'r llywodraeth gynyddu oedran gwerthu cynhyrchion tybaco o 18, flwyddyn ar ôl blwyddyn hyd nes na ellir eu gwerthu i neb. Argymhellodd yr Adolygiad hefyd y dylid cyflwyno trwydded tybaco i fanwerthwyr, er mwyn cyfyngu ar y tybaco sydd ar gael yn y wlad a chynyddu manau di-fwg er mwyn dadnormaleiddio ysmegu ac amddiffyn pobl ifanc rhag mwg ail-law. Mewn perthynas â fêps, argymhellodd Adolygiad Khan y dylai llywodraeth y DU wahardd cartwnau neu ddelweddau ar y pecynwaith, y dylid cynnal adolygiad o gyflasynnau a disgrifiadau o fêps, ac y dylid gwahardd cwmnïau fêps rhag dosbarthu samplau am ddim o fêps. Er mai cynigion ar gyfer Lloegr oedd y rhain yn Adolygiad Khan, roedd llawer o'r argymhellion yn berthnasol i'r sefyllfa yng Nghymru ac i'n huchelgais o fod yn ddi-fwg.
11. Ym mis Ebrill 2023, lansiodd Llywodraeth y DU 'Fepio ymhlith pobl ifanc: galwad am dystiolaeth' (<https://www.gov.uk/government/calls-for-evidence/youth-vaping-call-for-evidence/youth-vaping-call-for-evidence>) i archwilio sut y gallai'r llywodraeth fynd ymhellach i ddiogelu plant rhag risgiau fepio. Aeth ati i ystyried amrywiaeth o faterion, gan gynnwys cydymffurfiaeth reoleiddiol, y broses o farchnata a hyrwyddo fêps, rôl y cyfryngau cymdeithasol, ac effaith fepio ar yr amgylchedd. Canfu'r alwad am dystiolaeth fod ymdrechion i hyrwyddo fêps, y ffordd y cânt eu harddangos, yr amrywiaeth sydd ar gael a'r pecynwaith a ddefnyddir yn denu plant a phobl ifanc i ddechrau defnyddio'r cynhyrchion hyn. Fodd bynnag, pwysleisiodd y canfyddiadau y gall fêps fod yn ffordd effeithiol o helpu oedolion sy'n ysmegu i roi'r gorau iddi.
12. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cyd gan y pedair gwlad ar gamau gweithredu arfaethedig i'r DU gyfan er mwyn mynd i'r afael ag ysmegu a fepio ymhlith pobl ifanc rhwng 12 Hydref 2023 a 6 Rhagfyr 2023. Mae'r papur ymgynghori a'r

ddogfen ganlyniadau (a gyhoeddwyd ar 29 Ionawr 2024 ac a oedd yn nodi'r safbwynt y cytunwyd arno gan y pedair llywodraeth) ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/consultations/creating-a-smokefree-generation-and-tackling-youth-vaping>.

13. Gosodwyd y Bil Tybaco a Fêps yn wreiddiol yn Senedd y DU ar 20 Mawrth 2024 <https://bills.parliament.uk/bills/3703>. Daeth taith y Bil hwnnw i ben pan ddiddymwyd y Senedd cyn yr Etholiad Cyffredinol.
14. Yn ystod y broses o ddatblygu'r Bil, bu Gweinidogion Cymru yn cyfarfod â'r Gweinidogion yn Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am dybaco, ac yn gohebu â nhw, er mwyn trafod a chytuno ar waith rhynglywodraethol ar y mesurau, yr ymgynghoriad, ei ganlyniad, y dulliau o fynd ati o ran polisi, a'r broses o ddatblygu'r Bil.

Darpariaethau yn y Bil y mae'n ofynnol cael cydsyniad ar eu cyfer

15. Yn fy marn i, bodlonir y prawf yn RhS29.1 ac mae'n ofynnol cael cydsyniad Senedd Cymru mewn perthynas â'r Bil yn ei gyfanrwydd, ac eithrio cymalau 5, 13, 16, 17, 18, 33, 35(1), 36(1), 38(3) a 39(1), Rhannau 2 a 3, cymalau 136-146, 153-158, 159, 162, 164, a 171.
16. Mae'r hyn a ganlyn yn crynhoi darpariaethau'r Bil sy'n cynnwys darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig ac sy'n golygu felly ei bod yn ofynnol cael cydsyniad. Pan fydd y ddarpariaeth yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth, nodir hefyd weithdrefn y Senedd sy'n gymwys i'r pŵer.

Rhan 1: Gwerthu a dosbarthu: Cymru a Lloegr

17. Mae Rhan 1 o'r Bil yn ymdrin â gwerthu a dosbarthu cynhyrchion tybaco, cynhyrchion ysmegu llysieuol, cynhyrchion fepio, cynhyrchion nicotin i ddefnyddwyr a phapurau sigarêts. Mae'n rhychwantu Cymru a Lloegr.
18. Y cymalau perthnasol yn y Rhan hon sy'n bodloni'r prawf yn RhS29 yw:
 - Cymalau 1 i 4 a 6 – Gwerthu tybaco etc
 - Cymalau 7 i 9 – Snŵs etc
 - Cymalau 10 i 12 – Gwerthu cynhyrchion fepio a nicotin etc
 - Cymal 14 – Arddangos cynhyrchion neu brisiau
 - Cymal 15 – Dosbarthu am ddim a phrisiau gostyngol
 - Cymalau 19 i 22 ac Atodlenni 3 a 4 – Trwyddedu manwerthu: Cymru
 - Cymalau 23 i 27 – Gorchmynion mangre o dan gyfyngiad
 - Cymalau 28 i 30 – Gorchmynion gwerthu o dan gyfyngiad
 - Cymal 31 – Troseddau gan gyrff
 - Cymalau 32 a 34 – Swyddogaethau gorfodi
 - Cymalau 35(2) a 36(2) – Pŵer gweinidogion i ymgymryd â'r cyfrifoldeb am orfodi
 - Cymalau 37, 38(1), (2), (4), (5) a 39(2) i (4) – Cosbau penodedig
 - Cymal 40 ac Atodlen 5 – Rhoi tybaco etc i bobl o dan oed yng Nghymru

- Cymalau 41 i 44 ac Atodlenni 6 a 7 – Darpariaeth ganlyniadol, drosiannol a darfodol
- Cymalau 45 a 46 – Pwerau i addasu cwmpas
- Cymal 47 – Cymhwyso i'r Goron
- Cymalau 48 a 49 – Dehongli etc

Cymalau 1 i 4 a 6 – Gwerthu tybaco etc

19. Mae'r cymalau hyn yn gwneud cyfyngiadau ynghylch gwerthu cynhyrchion tybaco, cynhyrchion ysmegu llysieuol neu bapurau sigarêts drwy fanwerthu yng Nghymru a Lloegr.
20. Mae cymal 1 yn cyflwyno cyfyngiad newydd ar yr oedran gwerthu ar gyfer cynhyrchion tybaco, cynhyrchion ysmegu llysieuol a phapurau sigarêts. Y bwriad yw dal unrhyw gynhyrchion sy'n cynnwys tybaco ac sy'n cael eu defnyddio fel cynhyrchion defnyddwyr yn ogystal â chynhyrchion llysieuol eraill sy'n cael eu hysmygu, oherwydd natur niweidiol ysmegu. Mae papurau sigarêts wedi'u cynnwys hefyd am eu bod yn cael eu llosgi gyda thybaco. Mae'r cymal yn ei gwneud yn drosedd gwerthu'r cynhyrchion hyn i unrhyw un a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009.
21. Nid yw'r cyfyngiad oedran gwerthu yn gymwys i werthiannau a wneir fel rhan o fusnes, felly ni fyddai'n atal rhywun a anwyd ar ôl 1 Ionawr 2009 rhag cael ei gyflogi mewn busnes manwerthu tybaco neu gyfanwerthwr tybaco. Nid yw'r cyfyngiad oedran gwerthu yn ei gwneud yn drosedd i rywun a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009 feddu ar gynhyrchion tybaco, cynhyrchion ysmegu llysieuol neu bapurau sigarêts na'u defnyddio.
22. Mae'r cymal hwn yn darparu ei bod yn amddiffyniad i rywun sy'n cael ei gyhuddo o gyflawni'r drosedd i brofi y dangoswyd iddo yr hyn a oedd yn ymddangos yn ddogfen adnabod (megis pasbort neu Drwydded Yrru'r DU) a oedd yn perthyn i'r prynwr a bod y dyddiad geni a ddangoswyd ar y ddogfen honno cyn 1 Ionawr 2009, neu ei fod fel arall wedi cymryd pob cam rhesymol i osgoi cyflawni'r drosedd. Gallai unigolyn a geir yn euog o'r drosedd hon gael dirwy o hyd at £2,500 (lefel 4 ar y raddfa safonol).
23. Mae cymal 2 yn ei gwneud yn drosedd i unrhyw oedolyn 18 oed neu drosodd brynu, neu geisio prynu, cynhyrchion tybaco, papurau sigarêts neu gynhyrchion ysmegu llysieuol ar ran rhywun a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009, y cyfeirir ato'n gyffredinol fel 'prynu drwy ddirprwy'. Mae hyn yn sicrhau cysondeb â'r cyfyngiad newydd ar yr oedran gwerthu yng nghymal 1. Dim ond unigolion 18 oed neu drosodd all gyflawni'r drosedd er mwyn osgoi troseddoli plant. Mae'r cymal yn nodi'r amgylchiadau pan fo amddiffyniadau yn gymwys. Gallai unigolyn a geir yn euog o'r drosedd hon gael dirwy o hyd at £2,500 (lefel 4 ar y raddfa safonol).
24. Mae cymal 3 yn nodi ei bod yn drosedd os yw person yn rheoli mangre lle mae peiriant gwerthu tybaco (peiriant awtomatig y gellir prynu ohono gynhyrchion tybaco, cynhyrchion ysmegu llysieuol neu bapurau sigarêts) ar gael i'w ddefnyddio yn y fangre. Mae'r cymal yn ailddeddfu ac yn cydgrynhoi'r

darpariaethau presennol a gyflwynodd bŵer i wneud rheoliadau i wahardd gwerthu tybaco o beiriant awtomatig yng Nghymru a Lloegr. Mae hwn wedi cael ei ddiweddarau i gynnwys papurau sigarêts hefyd er mwyn bod yn gyson â'r cynhyrchion sydd o fewn cwmpas y ddarpariaeth ynglŷn â'r oedran gwerthu. Gallai person a geir yn euog o drosedd o dan y ddarpariaeth hon gael dirwy o hyd at £2,500 (lefel 4 ar y raddfa safonol).

25. Mae cymal 4 yn ailddeddfu (heb newid y gyfraith) y gwaharddiad presennol rhag gwerthu sigarêts pan na fyddant yn eu pecynwaith gwreiddiol. Rhaid i fanwerthwyr tybaco werthu sigarêts yn y pecynwaith y cânt eu cyflenwi i'r manwerthwr ynddo (a ddiffinnir fel pecynwaith gwreiddiol) ac mae peidio â gwneud hynny yn drosedd. Gallai unrhyw un a geir yn euog o'r drosedd hon gael dirwy o hyd at £1,000 (lefel 3 ar y raddfa safonol).
26. Mae cymal 6 yn gwneud yr un ddarpariaeth i Gymru ag y mae cymal 5 yn ei gwneud i Loegr. Mae'r cymal yn disodli'r gofyniad blaenorol ynglŷn â hysbysiadau oedran gwerthu â gofyniad i fanwerthwyr tybaco yng Nghymru arddangos hysbysiadau sy'n datgan y gofynion newydd o ran oedran gwerthu mewn man amlwg gyda'r testun Cymraeg a Saesneg sy'n nodi, "Mae'n anghyfreithlon gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009" a "It is illegal to sell tobacco products to anyone born on or after 1 January 2009". Rhaid arddangos yr arwydd newydd o 1 Ionawr 2027. Y gosb am fethu ag arddangos hysbysiad yw dirwy o hyd at £1,000 (lefel 3 ar y raddfa safonol).
27. Mae cymal 6(4) yn darparu pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i bennu gofynion o ran maint neu ymddangosiad y datganiad i'w arddangos ar yr hysbysiad neu unrhyw agwedd arall ar yr hysbysiad, er enghraifft ei liw. Bydd y gofynion ar gyfer yr hysbysiad yn cael eu nodi mewn rheoliadau cyn 1 Ionawr 2027. Mae cymal 6 yn ailddeddfu'r pŵer gwneud rheoliadau o dan adran 4 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Amddiffyn rhag Tybaco) 1991 gan gyflwyno addasiadau iddo. Cafodd Rheoliadau Amddiffyn rhag Tybaco (Arddangos Datganiadau Rhybuddio) 1992 eu gwneud gan ddefnyddio'r pwerau yn adran 4. Mae'r pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

Cymalau 7, 8 a 9 – Snŵs etc

28. Mae cymal 7 yn ei gwneud yn drosedd gweithgynhyrchu cynnyrch tybaco yn y DU y bwriedir iddo gael ei gymryd drwy'r geg, na fwriedir iddo gael ei fewnanadlu na'i gnoi ac sy'n cynnwys tybaco, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, ar ffurf powdr neu ronynnau ("snŵs"). Mae'n ailddeddfu'r gwaharddiad presennol (Rheoliad 17 o Reoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016) ac mae'r Bil yn estyn y cyfyngiadau hyn i gynnwys gwaharddiad ar snŵs y bwriedir eu hallforio. Mae hyn yn symleiddio'r drefn orfodi ac yn lleihau'r posibilrwydd y bydd cynhyrchion niweidiol o'r fath ar gael yn y DU. Caiff unigolyn a geir yn euog o drosedd o dan y ddarpariaeth hon ddirwy neu ei garcharu am gyfnod nad yw'n fwy na 2 flynedd, neu'r ddau.
29. Mae cymal 8 yn ailddeddfu'r ddarpariaeth bresennol ac yn ei gwneud yn drosedd gwerthu snŵs, eu cynnig i'w gwerthu neu eu rhoi ar ddangos i'w gwerthu, yn y

DU. Mae'r Bil yn estyn y cyfyngiadau hyn i gynnwys gwaharddiad ar snŵs y bwriedir eu hallforio. Mae hyn yn symleiddio'r drefn orfodi ac yn lleihau'r posibilrwydd y bydd cynhyrchion niweidiol o'r fath ar gael yn y DU. Mae'n amddiffyniad i berson sy'n cael ei gyhuddo o drosedd o dan y ddarpariaeth hon brofi ei fod wedi cymryd pob cam rhesymol i osgoi cyflawni'r drosedd. Caiff unigolyn a geir yn euog o drosedd o dan y ddarpariaeth hon ddirwy neu ei garcharu am gyfnod nad yw'n fwy na 2 flynedd, neu'r ddau.

30. Mae cymal 9 yn ei gwneud yn drosedd i berson fod â snŵs yn ei feddiant gyda'r bwriad o'i gyflenwi wrth gynnal busnes. Ni fydd yn drosedd meddu ar snŵs at ddefnydd personol neu i'w roi yn rhodd personol. Caiff unigolyn a geir yn euog o drosedd o dan y ddarpariaeth hon ddirwy neu ei garcharu am gyfnod nad yw'n fwy na 2 flynedd, neu'r ddau.

Cymalau 10 i 12 – Gwerthu cynhyrchion fepio a nicotin etc

31. Mae'r cymalau hyn yn cyfyngu ar werthu cynhyrchion fepio a nicotin. Diffinnir y cynhyrchion hyn yng nghymal 48 ac mae'n newid o'r ddarpariaeth bresennol ynglŷn â'r oedran gwerthu, fel y'i nodwyd yn Rheoliadau Cynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Oedran Gwerthu a Phrynu drwy Ddirprwy) 2015 nad yw ond yn cynnwys fêps nicotin ar hyn o bryd. Mae'r cymalau yn galluogi i ystod o gynhyrchion fepio a nicotin gael eu rheoleiddio ac maent wedi'u gwneud i sicrhau dull cyson o ymdrin â'r holl gynhyrchion hyn. Daw'r newid i rym chwe mis ar ôl i'r Bil gael ei basio.
32. Mae cymal 10 yn ei gwneud yn drosedd i werthu cynnyrch nicotin i berson o dan 18 oed. Mae'r cymal yn darparu ei fod yn amddiffyniad i rywun sy'n cael ei gyhuddo o gyflawni trosedd o dan y cymal hwn i brofi y dangoswyd iddo yr hyn a oedd yn ymddangos yn ddogfen adnabod a oedd yn perthyn i'r prynwr a'i bod yn cadarnhau bod y cwsmer yn 18 oed neu'n hŷn, neu ei fod fel arall wedi cymryd pob cam rhesymol i osgoi cyflawni'r drosedd. Gallai unrhyw un a geir yn euog o'r drosedd hon gael dirwy o hyd at £2,500 (lefel 4 ar y raddfa safonol).
33. Mae cymal 11 yn ei gwneud yn drosedd i berson 18 oed neu'n hŷn brynu, neu geisio prynu, cynnyrch fepio neu gynnyrch nicotin ar ran rhywun sydd o dan 18 oed, a elwir hefyd yn brynu drwy ddirprwy. Mae'r cymal hwn yn disodli adran 91 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (Deddf 2014) sy'n gymwys i fêps nicotin yn unig ar hyn o bryd fel y bydd y cyfyngiad newydd yn gymwys i brynu drwy ddirprwy ar gyfer pob cynnyrch fepio a nicotin. Mae'r cymal hwn yn darparu ei bod yn amddiffyniad i berson sy'n cael ei gyhuddo o drosedd brofi nad oedd ganddo unrhyw reswm dros amau fod y person arall o dan 18 oed. Gallai unrhyw un a geir yn euog o'r drosedd hon gael dirwy o hyd at £2,500 (lefel 4 ar y raddfa safonol).
34. Mae cymal 12 yn ei gwneud yn drosedd i berson sy'n rheoli mangre fod â pheiriant gwerthu fêps neu gynhyrchion nicotin (peiriant awtomatig y gellir prynu ohono gynhyrchion fepio/nicotin) ar gael i'w ddefnyddio yn y fangre. Daw'r drosedd i rym chwe mis ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol, a hynny er mwyn i fangreoddedd sy'n cynnwys peiriant gwerthu fêps a chynhyrchion nicotin ar hyn o bryd gael amser i gael gwared ar y peiriant neu ei lenwi â chynhyrchion amgen.

Mae'r cymal yn cyflwyno trosedd newydd gan nad oes unrhyw gyfyngiadau ar hyn o bryd ar y defnydd o beiriannau gwerthu fêps na pheiriannau gwerthu cynhyrchion nicotin, yn wahanol i beiriannau gwerthu tybaco, a waharddwyd drwy reoliadau a wnaed o dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Amddiffyn rhag Tybaco) 1991. Caiff person a geir yn euog o'r drosedd hon ddirwy o hyd at £2,500 (lefel 4 ar y raddfa safonol).

Cymal 14 – Arddangos cynhyrchion neu brisiau

35. Mae cymal 14 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i reoleiddio'r modd y mae manwerthwyr yn arddangos cynhyrchion tybaco, cynhyrchion ysmegu llysieuol, papurau sigarêts, cynhyrchion fepio a chynhyrchion nicotin a'u prisiau, yn ogystal â'r modd yr arddangosir pecynwaith manwerthu gwag, mewn man yng Nghymru. Yn yr un modd, yn debyg i Loegr, mae cyfyngiadau eisoes ar arddangos cynhyrchion tybaco wrth gynnal busnes yng Nghymru o dan Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002 a'r rheoliadau a wnaed o dan y ddeddf honno, a fydd yn cael eu diddymu. Mae is-adran (6) o'r cymal hwn yn cadarnhau bod rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gwneud rheoliadau o dan y cymal hwn, ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn eu hystyried yn briodol. Mae'r pŵer o dan gymal 14 yn nodi y caiff y rheoliadau ddarparu ar gyfer creu troseddau am fethu â chydymffurfio â'r rheoliadau a gallai unrhyw un a geir yn euog o drosedd gael ei garcharu am gyfnod nad yw'n fwy na 2 flynedd, ei ddirwyo, neu'r ddau. Mae rheoliadau o dan y cymal hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Cymal 15 – Dosbarthu am ddim a phrisiau gostyngol

36. Mae cymal 15 yn ei gwneud yn drosedd rhoi unrhyw gynnyrch neu gwpon (a ddiffiniwyd fel unrhyw beth (boed hynny ar ffurf ffisegol neu electronig), y gellir ei gyfnewid am gynnyrch neu wasanaeth neu am arian parod neu unrhyw fudd arall) i aelod o'r cyhoedd os y diben neu'r effaith yw hyrwyddo cynnyrch perthnasol. Ar hyn o bryd, o dan adran 9 o Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2022 (Deddf 2022) gwaherddir rhoi (wrth gynnal busnes) unrhyw gynnyrch neu gwpon os y diben neu'r effaith yw hyrwyddo cynnyrch tybaco. Mae'r cymal hwn yn disodli adran 9 o Ddeddf 2022 ac yn estyn y cwmpas am nad oes unrhyw gyfyngiadau ar hyn o bryd ar fusnesau o ran dosbarthu cynhyrchion nicotin a chynhyrchion fepio nad ydynt yn rhai nicotin, papurau sigarêts, a chynhyrchion ysmegu llysieuol. Mae'r cymal hwn hefyd yn ei gwneud yn drosedd gwerthu cynnyrch neu gwpon perthnasol am ostyngiad sylweddol. Mae Ddeddf 2022 yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau i estyn y gwaharddiad ar ddisbarthu cynhyrchion tybaco am ddim i gwmpasu gwerthu cynnyrch am ostyngiad sylweddol. Mae hyn wedi'i ailddeddfu'n waharddiad ar wyneb y Bil yn hytrach nag yn bŵer gwneud rheoliadau, gan nad oes bwriad i ganiatáu gwerthu cynnyrch neu gwpon am ostyngiad sylweddol i osgoi'r cyfyngiad ar ddisbarthu am ddim.
37. Mae'r cymal yn darparu bod amddiffyniad ar gael os gall y person a gyhuddwyd brofi iddo gael ei wneud yn unol â'r trefniadau a wnaed gan awdurdod cyhoeddus. Os bydd yr amddiffyniad hwn yn cael ei fodloni, yna nid yw'n euog o'r drosedd. Un enghraifft bosibl o hyn yw pan fo un o gyrff y llywodraeth yn

ariannu rhaglenni rhoi'r gorau i ysmegu sy'n defnyddio fêps yn adnodd rhoi'r gorau i ysmegu ac yn eu darparu am ddim. Caiff unrhyw un a geir yn euog o drosedd o dan y cymal hwn ei garcharu am gyfnod nad yw'n fwy na 2 flynedd, neu ei ddirwyo, neu'r ddau.

Cymalau 19 i 21 ac Atodlenni 3 a 4 – Trwyddedu manwerthu: Cymru

38. Mae cymalau 19 i 22 ac Atodlenni 3 a 4 yn sefydlu'r gwaharddiad ar fanwerthu cynhyrchion tybaco etc (cynhyrchion tybaco, cynhyrchion ysmegu llysieuol, papurau sigarêts, cynhyrchion fepio neu gynhyrchion nicotin) yng Nghymru heb drwydded.
39. Mae cymal 19 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynglŷn â rhoi trwyddedau personol a thrwyddedau i fangreoedd. Mae cymal 19(1) yn gwahardd gwerthu cynhyrchion tybaco etc, eu rhoi ar ddangos i'w gwerthu, neu feddu arnynt at ddibenion gwerthu (gan yr unigolyn neu berson arall) gan unigolyn yng Nghymru, ac eithrio o dan awdurdod trwydded bersonol ac yn unol â thrwydded bersonol. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, greu eithriadau i'r gwaharddiad hwn. Mae cymal 19(2) yn gwahardd person rhag defnyddio neu ganiatáu defnyddio mangreoedd yng Nghymru i storio cynhyrchion perthnasol er mwyn eu gwerthu (gan y person neu gan berson arall), rhoi'r cynhyrchion hyn ar ddangos i'w gwerthu, neu eu cyflenwi i gwsmeriaid manwerthu ac eithrio o dan awdurdod trwydded mangre ac yn unol â thrwydded mangre. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, greu eithriadau i'r gwaharddiad uchod. Yr awdurdod trwyddedu a fydd yn gyfrifol am roi trwyddedau personol a thrwyddedau i fangreoedd yng Nghymru fydd y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol perthnasol. Cyn arfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan y cymal hwn, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau y maent yn eu hystyried yn briodol. Rhaid i Weinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ar gyfer rhoi trwyddedau personol a thrwyddedau mangre, a darpariaeth mewn cysylltiad â'r trwyddedau hynny. Ceir rhagor o fanylion am yr hyn y caiff rheoliadau o'r fath yng Nghymru ei gynnwys yn Atodlen 3. Bydd unrhyw reoliadau a wneir o dan gymal 19 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.
40. Mae Atodlen 3 yn manylu ar y ddarpariaeth ar gyfer cynllun trwyddedu manwerthu y caniateir ei wneud o dan y pwerau rheoleiddiol a ddarperir i Weinidogion Cymru yng nghymal 19(4) i roi eglurder ynghylch diben arfaethedig y pwerau i wneud rheoliadau. Atodlen i Gymru yn unig ydyw.
41. Caiff y rheoliadau wneud darpariaethau ynglŷn â rhoi trwydded yng Nghymru, gan gynnwys darpariaethau sy'n golygu na allai awdurdod trwyddedu roi trwydded i fangre mewn ardal benodol (er enghraifft, wrth ymyl ysgol) neu y gellid cyfyngu ar nifer y trwyddedau o fewn ardal benodol. Caiff darpariaeth hefyd ei gwneud yn ofynnol i awdurdod trwyddedu archwilio mangre er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau cyn i drwydded gael ei rhoi. Caiff y rheoliadau ganiatáu i awdurdod trwyddedu godi ffi ar adeg gwneud cais a hefyd ar adeg adnewyddu trwydded. Bydd uchafswm unrhyw ffi yn cael ei phennu mewn rheoliadau neu'n cael ei phenderfynu yn unol â rheoliadau, a bydd modd iddi gyfrif am gost arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â'r cynllun trwyddedu,

gan gynnwys costau gweinyddu a gorfodi'r cynllun. Caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod trwyddedu dalu cyfran o'r ffioedd a gesglir i unrhyw berson arall sydd â swyddogaethau o dan y cynllun trwyddedu (cymalau 19-21 o'r rheoliadau), er mwyn sicrhau y gellir defnyddio'r ffioedd a gesglir ar gyfer gorfodi'r cynllun mewn sefyllfa pan fo'r awdurdod trwyddedu yn wahanol i'r awdurdod gorfodi.

42. Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaethau ynglŷn ag amodau'r drwydded, sef y gofynion y bydd angen i ddeiliaid trwydded eu bodloni er mwyn cadw trwydded i werthu'r cynhyrchion perthnasol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr gadw at reoliadau penodol ynglŷn â thybaco a fêps (megis rheoliadau ynglŷn â'r oedran gwerthu) neu arddangos trwydded mewn mangre fanwerthu. Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaethau ynglŷn â pharhad y drwydded a chyhoeddi gwybodaeth am y drwydded gan yr awdurdod trwyddedu. Gall cyhoeddi rhestr o fanwerthwyr trwyddedig helpu i orfodi'r cynllun trwyddedu.
43. Bydd y rheoliadau yn sefydlu'r broses adolygu ac apelio ar gyfer penderfyniadau a wneir ynglŷn â rhoi trwydded. Rhaid iddynt bennu pan gaiff person wneud cais am adolygiad o benderfyniad a wnaed o dan y rheoliadau a rhoi hawl i berson apelio i lys ynadon yn erbyn penderfyniad a wnaed ar ôl adolygiad. Bydd hyn yn galluogi penderfyniad annibynnol. Mae'n bosibl y bydd terfyn amser ar gyfer gofyn am adolygiadau neu ddechrau apeliadau.
44. Caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i awdurdod trwyddedu roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y rheoliadau trwyddedu. Bydd canllawiau yn helpu awdurdodau trwyddedu i roi'r rheoliadau ar waith.
45. Mae cymal 20 yn nodi troseddau mewn cysylltiad â thrwyddedau yng Nghymru, sef bod unrhyw un sy'n torri'r gwaharddiadau a nodir yng nghymal 19(1) neu (2) yn cyflawni trosedd. Mae'r cymal hefyd yn ei gwneud yn drosedd os bydd person yn rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i awdurdod trwyddedu mewn cais i roi trwydded bersonol neu drwydded mangre, neu mewn cysylltiad â chais o'r fath; neu wrth ymgymryd ag unrhyw rwymedigaeth arall a osodwyd gan reoliadau trwyddedu neu odanynt. Dim ond os yw'r wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol mewn modd perthnasol, a bod y person yn gwybod hynny neu y dylai'n rhesymol fod yn gwybod hynny, y mae hi'n drosedd.
46. Caiff person a geir yn euog o drosedd o dan gymal 20(1) neu (2) ddirwy ddiderfyn lle nad oes uchafswm. Fel dewis arall yn lle erlyniad troseddol, caiff awdurdodau pwysau a mesurau lleol yng Nghymru (e.e. Adrannau Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yng Nghymru) roi hysbysiad cosb benodedig am y troseddau hyn o dan y darpariaethau yng nghymal 37 (Hysbysiadau cosb benodedig). Ar ôl euogfarn o'r drosedd o dan gymal 20(1) caiff llys wneud gorchymyn ynghylch yr hyn a fydd yn digwydd i'r cynhyrchion perthnasol y mae'r drosedd/troseddau yn ymwneud â nhw. Gallai hyn gynnwys fforffedu a dinistrio'r cynhyrchion perthnasol a'u cynwysyddion.

47. Mae cymal 21 yn cyflwyno cosbau ariannol y gellir eu gosod am dorri amodau a atodir i drwydded bersonol neu drwydded mangre yng Nghymru, ar yr amod nad yw'r tor amod yn drosedd o dan gymal 20. Cosbau sifil yw'r cosbau ariannol hyn a gallant gael eu rhoi gan awdurdod pwysau a mesurau lleol (e.e. Safonau Masnach Awdurdod Lleol yng Nghymru). Mae'r cymal yn gosod uchafswm y gosb ariannol ar £2,500 ac yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i newid yr uchafswm hwn i gyfrif am chwyddiant ac fel bod swm y gosb ariannol yn dal i fod yn gymesur. Bydd unrhyw reoliadau a wneir o dan gymal 21 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol am fod cwmpas y pŵer yn gul. Ceir rhagor o fanylion am gosbau ariannol am dorri amodau trwydded yng Nghymru yn Atodlen 4.
48. Mae Atodlen 4 yn nodi'r cosbau ariannol am dorri amodau trwydded fanwerthu yng Nghymru a'r weithdrefn i awdurdodau pwysau a mesurau lleol wrth iddynt roi cosbau ariannol am dorri amodau trwydded (cymal 21). Cyn gosod cosb ariannol, mae'n rhaid i awdurdodau pwysau a mesurau lleol roi hysbysiad o fwriad ysgrifenedig a chaniatáu ar gyfer cyfnod o gynrychiolaeth, er mwyn rhoi cyfle i'r person herio'r gosb ariannol arfaethedig. Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu gosod y gosb ariannol, ar ôl y cyfnod cynrychiolaeth, mae'n rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig terfynol. Gall yr hysbysiad o fwriad a'r hysbysiad terfynol gael eu tynnu'n ôl neu eu diwygio er mwyn lleihau swm y gosb ar unrhyw adeg drwy hysbysiad ysgrifenedig.
49. Mae gan berson yr hawl i apelio i'r llys ynadon yn erbyn y penderfyniad i osod cosb ariannol neu swm y gosb. Bydd hyn yn galluogi penderfyniad annibynnol. Mae Atodlen 4 yn pennu'r weithdrefn apelio i'w dilyn. Os bydd person yn methu â thalu'r gosb ariannol, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, o fewn y cyfnod a roddir, caniateir adennill y swm sydd heb ei dalu fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn llys sirol. Rhaid i unrhyw enillion a dderbynnir o gosbau ariannol gael eu dychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru. Cyn hynny, caiff yr awdurdod pwysau a mesurau lleol ddiwynu'r costau gorfodi o ran ymchwilio i'r drosedd a dyroddi'r hysbysiad cosb benodedig.
50. Mae cymal 22 yn ymdrin â diwygio Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i ddiddymu'r darpariaethau yn Rhan 3, Pennod 2, a oedd, pe caent eu dwyn i rym, yn galluogi sefydlu cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin yng Nghymru etc. Yr effaith yw diddymu'r darpariaethau presennol ar gyfer cofrestr manwerthwr yng Nghymru unwaith y bydd y darpariaethau ynghylch cynllun trwyddedu yn y Bil hwn yn dod i rym drwy orchymyn Gweinidogion Cymru.

Cymalau 23 i 27 – Gorchmynion mangre o dan gyfyngiad

51. Mae cymal 23 yn darparu bod troseddwr mynych ("persistent offender") yn berson sydd, ar ôl cael euogfarn o drosedd berthnasol, wedi cyflawni trosedd berthnasol mewn perthynas â'r un fangre ar o leiaf ddau achlysur arall o fewn cyfnod o ddwy flynedd sy'n dod i ben â'r euogfarn ddiweddaraf. Mae troseddau perthnasol yn cynnwys y rhai o dan gymal 1 (Gwerthu tybaco etc), cymal 3 (Peiriannau gwerthu tybaco), cymal 10 (Gwerthu cynhyrchion fepio neu nicotin i bobl o dan 18 oed) a chymal 12 (Peiriannau gwerthu cynhyrchion fepio a nicotin) o'r Bil hwn, yn ogystal â'r troseddau presennol a ddangosir yn is-adran 8(b) o'r

cymal hwn hyd nes y cânt eu diddymu. Mae'r cymal hwn yn disodli adran 12A o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933, ac mae'n seiliedig ar yr adran honno, lle y cyflwynwyd gorchmynion mangre o dan gyfyngiad am achosion mynych o fynd yn groes i'r cyfyngiadau ar yr oedran gwerthu ar gyfer cynhyrchion tybaco a nicotin.

52. Mae gorchymyn mangre o dan gyfyngiad yn golygu y gwaherddir gwerthiannau, yn y lleoliad lle y digwyddodd y troseddau, mewn perthynas ag un neu fwy o'r cynhyrchion perthnasol (cynhyrchion tybaco, cynhyrchion ysmegu llysieuol, papurau sigarêts, cynhyrchion fepio a nicotin ac unrhyw gynhyrchion nicotin). Pennir hyd y gorchymyn gan y llys a gall bara am gyfnod o hyd at 12 mis. Mae hyn yn golygu na ellir gwerthu unrhyw rai o'r cynhyrchion hyn o fangre'r busnes hwnnw, ond nid yw'n effeithio ar fusnesau eraill sy'n rhan o'r un grŵp neu gadwyn. Mae gorchymyn mangre o dan gyfyngiad yn bridiant tir lleol, sy'n golygu y bydd yn rhwymo unrhyw un sy'n prynu'r fangre.
53. Mae cymal 24 yn nodi'r meini prawf ar gyfer caniatáu i unigolion ('personau â buddiant' sy'n meddiannu'r fangre neu sydd â buddiant yn y fangre, er enghraifft y rheolwr neu'r perchennog) gyflwyno sylwadau i'r llys er mwyn ceisio atal gorchymyn mangre o dan gyfyngiad rhag cael ei wneud. Mae'r cymal yn darparu, pan fydd awdurdod gorfodi wedi gwneud cais am orchymyn mangre o dan gyfyngiad, fod rhaid iddo wneud ymholiadau rhesymol a rhoi hysbysiad am y cais i unrhyw un yr ymddengys iddo ei fod yn berson â buddiant. Gall person â buddiant gyflwyno ei achos ynghylch pam na ddylid gwneud y gorchymyn, a gall wneud cais i'r llys i newid neu ddisodli'r gorchymyn.
54. Mae cymal 25 yn rhoi'r hawl i apelio i Lys y Goron yn erbyn gorchymyn a wneir o dan lys ynadon o dan gymalau 23 neu 24.
55. Mae cymal 26 yn ei gwneud yn drosedd torri gorchymyn mangre o dan gyfyngiad fel y'i diffinnir yng nghymal 23. Mae torri gorchymyn mangre o dan gyfyngiad yn cynnwys gwerthu unrhyw gynnyrch a waharddwyd drwy orchymyn, ac mae'n gymwys os bydd rhywun yn gwybod, neu y dylai yn rhesymol wybod, fod gwaharddiad ar werthu'r cynnyrch. Mae'n bosibl y bydd gan rywun sy'n cael ei gyhuddo o'r drosedd amddiffyniad os gall brofi iddo gymryd pob cam rhesymol i osgoi cyflawni'r drosedd. Gallai unrhyw un a geir yn euog o'r drosedd hon gael dirwy ddiderfyn.
56. Mae cymal 27 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ychwanegu at y rhestr o droseddau perthnasol ("relevant offences") y gellir gwneud gorchymyn mangre o dan gyfyngiad yn eu cylch, gan ddisodli'r pŵer presennol yn adran 51 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i bennu trosedd tybaco neu nicotin ("tobacco or nicotine offence") ac estyn hyn i gynnwys troseddau sy'n ymwneud â chynhyrchion ysmegu llysieuol a fepio. Cyn gwneud rheoliadau o dan y cymal hwn, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried pwy sy'n debygol o fod â diddordeb yn y rheoliadau a dylent ymgynghori â'r rhai hynny sy'n briodol yn eu tyb hwy. Bydd y pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Cymalau 28 i 30 – Gorchmynion gwerthu o dan gyfyngiad

57. Mae cymal 28 yn darparu y gellir gwahardd troseddwr mynych (sydd wedi cyflawni trosedd berthnasol ar ddau achlysur arall o leiaf o fewn dwy flynedd) rhag gwerthu cynhyrchion penodol (e.e. cynhyrchion tybaco, ysmegu llysieuol, fepio neu nicotin yn ogystal â phapurau sigarêts). Gellir gosod gorchmynion gwerthu o dan gyfyngiad am achosion mynych o fynd yn groes i'r cyfyngiadau yng nghymal 1 (Gwerthu tybaco etc), cymal 3 (Peiriannau gwerthu tybaco), cymal 10 (Gwerthu cynhyrchion fepio neu nicotin i bobl o dan 18 oed) a chymal 12 (Peiriannau gwerthu cynhyrchion fepio a nicotin) o'r Bil hwn yn ogystal â'r troseddau presennol a ddangosir yn is-adran 5(b) o'r cymal hwn hyd at yr adeg y cânt eu diddymu. Mae'r cymal hwn yn disodli adran 12B o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933, ac mae'n seiliedig ar yr adran honno, lle y cyflwynwyd gorchmynion gwerthu o dan gyfyngiad ar gyfer achosion mynych o dorri'r ddeddfwriaeth ynglŷn â'r oedran gwerthu ar gyfer cynhyrchion tybaco a nicotin. Os bydd person a geir yn euog o drosedd berthnasol yn droseddwr mynych, gall y person a wnaeth ddwyn yr achos am y drosedd wneud cais i'r llys ynadon am orchymyn gwerthu o dan gyfyngiad.
58. Mae gorchymyn gwerthu o dan gyfyngiad yn gwahardd person a enwyd mewn busnes rhag gwerthu unrhyw gynhyrchion tybaco, cynhyrchion ysmegu llysieuol, papurau sigarêts, cynhyrchion fepio neu unrhyw gynnyrch nicotin perthnasol, neu'n ei wahardd rhag cael unrhyw swydd reoli mewn unrhyw fangre sy'n gysylltiedig â gwerthu'r cynhyrchion hyn, gan gynnwys cadw unrhyw beiriant ar gyfer cynhyrchion perthnasol. Bydd y gorchymyn yn gymwys i'r unigolyn a enwyd, ni waeth ble mae wedi'i gyflogi. Pennir hyd y gorchymyn gan y llys a gall bara am hyd at gyfnod o 12 mis.
59. Mae cymal 29 yn rhoi'r hawl i apelio i Lys y Goron yn erbyn gorchymyn a wneir o dan lys ynadon o dan gymalau 28 (Gorchmynion gwerthu o dan gyfyngiad).
60. Mae cymal 30 yn ei gwneud yn drosedd methu â chydymffurfio â gorchymyn gwerthu o dan gyfyngiad os yw wedi'i wneud. Mae'r cymal hefyd yn rhoi'r amgylchiadau lle y bydd amddiffyniad yn berthnasol. Gallai unrhyw un a geir yn euog o'r drosedd hon gael dirwy ddiderfyn.

Cymal 31 – Troseddau gan gyrff

61. Mae cymal 31 yn gwneud person perthnasol (cyfarwyddwr neu reolwr cwmni neu rywun â statws partner mewn partneriaeth neu berson sy'n arfer swyddogaeth reoli mewn cymdeithas anghorfforedig), neu berson sy'n honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd person perthnasol, yn atebol am drosedd a gyflawnwyd gan gorff pan fo'r drosedd wedi'i chyflawni â chydysyniad, ymoddefiad neu esgeulustod y person hwnnw. Mewn achosion o'r fath, mae'r person perthnasol hefyd yn cyflawni'r drosedd a byddai'r person hwnnw, yn ogystal â'r corff (megis y cwmni neu'r bartneriaeth) y mae'n gweithio iddo yn agored i gael achos wedi'i ddwyn yn ei erbyn. Mae hyn yn gymwys i droseddau o dan gymal 26 neu unrhyw drosedd arall o dan Ran 1 o'r Bil neu unrhyw reoliadau a wneir o dan gymal 14 ar gyfer Cymru.

Cymalau 32 a 34 – Swyddogaethau gorfodi

62. Mae cymal 32 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau pwysau a mesurau lleol i orfodi'r darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil ac unrhyw reoliadau a wneir o dan gymal 14 (Arddangos cynhyrchion neu brisiau yng Nghymru). Mae'n darparu mai'r pwerau ymchwilio sydd ar gael i awdurdod gorfodi yw'r pwerau hynny yn Atodlen 5 (Pwerau ymchwilio) i Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015.
63. Mae cymal 34 yn nodi gofyniad ar awdurdodau gorfodi yng Nghymru i ystyried rhaglen orfodi ('programme of enforcement'), fel y'i gelwir, a chynllun posibl y rhaglen yn flynyddol. Mae hyn yn ffordd o sicrhau bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn ystyried a ydynt yn gorfodi troseddau penodol yn effeithiol. Rwy'n ceisio sicrwydd gan Lywodraeth y DU y bydd y gofynion hyn yn cyd-fynd â gofynion Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

Cymalau 35(2) a 36(2) – Pŵer gweinidogion i ymgymryd â'r cyfrifoldeb am orfodi ac am achosion

64. Mae cymal 35(2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gyflawni'r ddyletswydd orfodi a osodir gan gymal 32 yn lle'r awdurdod gorfodi lleol mewn perthynas ag achosion penodol fel y'i cyfarwyddir ganddynt. Effaith hyn yw y bydd awdurdod gorfodi cenedlaethol yn cynnal yr ymchwiliad ac yn cymryd y camau gorfodi, yn hytrach na'r awdurdod gorfodi lleol. Gallai hyn godi os na fydd awdurdod gorfodi lleol yn gallu neu'n barod i gymryd camau gorfodi mewn perthynas ag achos penodol. Mae cymal 35(1) yn rhoi pŵer cyfatebol i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr.
65. Mae cymal 36(2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gymryd cyfrifoldeb am yr achos cyfreithiol sy'n gysylltiedig ag unrhyw drosedd a gyflawnwyd o dan Ran 1 o'r Bil neu reoliadau a wneir o dan gymal 14 (Arddangos cynhyrchion neu brisiau yng Nghymru). Mae cymal 35(1) yn rhoi pŵer cyfatebol i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr. Gallai hyn godi os na fydd awdurdod gorfodi lleol yn gallu neu'n barod i gymryd camau cyfreithiol mewn perthynas ag achos penodol.

Cymalau 37 i 39 – Cosbau penodedig

66. Mae cymal 37 yn cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig i orfodi'r ddeddfwriaeth ynglŷn â'r cyfyngiadau oedran gwerthu yng Nghymru ar gyfer cynhyrchion tybaco, cynhyrchion ysmegu llysiuol, a phapurau sigarêts (cymal 1), a chynhyrchion fepio a nicotin (cymal 10), prynu tybaco drwy ddirprwy etc (cymal 2) a chynhyrchion fepio neu nicotin (cymal 11), rheoliadau ynglŷn â hysbysiadau oedran gwerthu tybaco yn y man gwerthu yng Nghymru (cymal 6), rheoliadau ynglŷn ag arddangos cynhyrchion neu brisiau yng Nghymru (cymal 14), dosbarthu cynhyrchion tybaco, fepio a nicotin am ddim a'u gwerthu am bris gostyngol (cymal 15), ac unrhyw droseddau mewn cysylltiad â thrwyddedu yng Nghymru (cymal 20). Cyflwynodd adran 91 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer prynu tybaco a chynhyrchion fepio drwy ddirprwy; a bydd hyn yn cael ei ddisodli gan y gyfundrefn hysbysiadau cosb benodedig yn y Bil.

67. Mae hysbysiad cosb benodedig yn cynnig cyfle i'r person osgoi cael ei erlyn am y drosedd os bydd yn talu'r ddirwy o fewn cyfnod penodedig. Bydd swm y ddirwy ar lefel 4 ar y raddfa safonol (sef £2,500 ar hyn o bryd) am droseddau mewn cysylltiad â thrwyddedu yng Nghymru (cymal 20). Am bob trosedd arall, bydd dirwy o £200. Y swm a bennir yw'r swm os caiff ei dalu o fewn 28 diwrnod a bydd yn gostwng 50% os caiff ei dalu o fewn 14 diwrnod Ni ellir cychwyn unrhyw achos cyfreithiol cyn diwedd y cyfnod 28 diwrnod. Os bydd y person sydd wedi cael yr hysbysiad cosb benodedig yn methu â gwneud y taliad, gall yr awdurdod gorfodi lleol benderfynu cychwyn achos yn ei erbyn am y drosedd a bydd y cyfnod hwnnw o 28 diwrnod yn cael ei ddiystyru at ddibenion cyfrifo'r cyfnod cyfyngu ar gyfer y llys ynadon mewn perthynas â throedd y mae adran 127(1) o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 yn gymwys iddi. Gall yr awdurdod gorfodi lleol dynnu hysbysiad cosb benodedig yn ei ôl ar unrhyw adeg cyn i daliad gael ei wneud.
68. Mae cymal 38(1) a (2) yn darparu bod rhaid i enillion a dderbynnir o hysbysiadau cosb benodedig am droseddau mewn cysylltiad â thrwyddedu yng Nghymru (cymal 20) gael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru. Cyn hynny, caiff yr awdurdod pwysau a mesurau lleol ddiwynnu'r costau gorfodi o ran ymchwilio i'r drosedd a dyroddi'r hysbysiad cosb benodedig. Mae cymal 38(4) yn darparu bod rhaid i unrhyw enillion o hysbysiadau cosb benodedig am droseddau eraill gael eu defnyddio gan yr awdurdod pwysau a mesurau lleol yng Nghymru mewn cysylltiad â'u swyddogaethau o ran gorfodi unrhyw fesurau yn y Bil hwn, neu unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil hwn, yn ogystal â mesurau yn Rhan 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 a Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016. Mae cymal 38(5) yn diffinio hysbysiad cosb benodedig a Chronfa Gyfunol berthnasol at ddibenion y cymal hwn.
69. Mae cymal 39(2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i newid swm yr hysbysiad cosb benodedig a'r gostyngiad canrannol am dalu'n gynnar. Nid yw'r pŵer hwn yn cynnwys y gallu i newid swm yr hysbysiad cosb benodedig am droseddau mewn cysylltiad â thrwyddedu yng Nghymru (cymal 20). Am bob trosedd arall, mae cymal 39(3) yn darparu bod y swm uchaf y gellir newid swm yr hysbysiad cosb benodedig iddo yn cyfateb i lefel 3 ar y raddfa safonol o ddirwyon am droseddau diannod (sef £1,000 ar hyn o bryd). Mae hyn wedi cael ei gynnwys yn y Bil er mwyn sicrhau bod hyblygrwydd i gyfundrefnau newydd addasu swm y gosb a'r swm gostyngol i adlewyrchu amgylchiadau economaidd a chymdeithasol newidiol, megis newidiadau mewn chwyddiant a sicrhau bod symiau dirwyon yn gymesur. Bydd y pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Cymal 40 ac Atodlen 5 – Rhoi tybaco etc i bobl dan oed yng Nghymru

70. Mae cymal 40 ac Atodlen 5 yn cyflwyno diwygiadau i'r drosedd ym Mhennod 4, Rhan 3, Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (rhoi tybaco etc i bobl o dan oed yng Nghymru). Y diwygiadau yw diweddarau'r darpariaethau a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r cyfyngiadau oedran gwerthu newydd ar gyfer cynhyrchion tybaco, papurau sigarêts a chynhyrchion nicotin, a chynnwys cynhyrchion fepio a chynhyrchion ysmegu llysiuol o fewn eu cwmpas. Maent hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i estyn, drwy reoliadau, y cynhyrchion y mae'r

darpariaethau o ran tybaco yn y Bennod honno yn gymwys iddynt i gynnwys dyfeisiau sy'n ei gwneud yn bosibl i gynnyrch tybaco gael ei ddefnyddio ac eitemau sy'n rhan o'r cyfryw ddyfais. Bydd rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Cymal 41, atodlenni 6 a 7, cymalau 42 i 44 – Darpariaethau canlyniadol, trosiannol a darfodol

71. Mae cymal 41 yn nodi'r diwygiadau canlyniadol sy'n gysylltiedig â Rhan 1. Nodir y diwygiadau yn Atodlenni 6 a 7 yn ôl pryd y daethant i rym.
72. Mae Atodlen 6 yn nodi unrhyw ddiwygiadau canlyniadol a fydd yn cael eu gwneud i ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes a ddaw i rym chwe mis ar ôl i'r Bil gael ei basio. Bydd diwygiadau canlyniadol yn yr atodlen yn sicrhau bod deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â chyfyngiadau a rheoliadau tybaco yn unol â darpariaethau'r Bil.
73. Mae Atodlen 7 yn nodi manylion unrhyw ddiwygiadau canlyniadol a fydd yn cael eu gwneud i ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2027, er mwyn sicrhau y gall mesurau yn y Bil sy'n dod i rym ar y dyddiad hwnnw weithredu fel y bwriadwyd.
74. Mae cymal 42 yn sicrhau y bydd y gofynion ynglŷn â'r rhaglen orfodi i Gymru a Lloegr (cymalau 33 a 34 yn y Bil) yn gymwys, ar adeg pasio'r Bil, i'r mesurau rheoli tybaco a'r gofynion ynglŷn â hysbysiadau oedran gwerthu sy'n bodoli eisoes hyd nes y daw'r mesurau newydd yn y Bil i rym ar 1 Ionawr 2027.
75. Mae cymal 43 yn darparu y bydd y gyfundrefn hysbysiadau cosb benodedig (cymal 37, hysbysiadau cosb benodedig) yn y Bil hwn yn gymwys i droseddau sy'n bodoli eisoes ynglŷn â gwerthu cynhyrchion i rywun dan oed (o dan 18 oed) neu brynu'r cynhyrchion hyn ar ei ran o chwe mis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. O 1 Ionawr 2027, pan ddaw'r cyfyngiadau oedran gwerthu newydd ar gyfer cynhyrchion tybaco, cynhyrchion ysmegu llysieuol a phapurau sigarêts i rym, bydd hysbysiadau cosb benodedig yn gymwys er mwyn gorfodi'r cyfyngiadau newydd hyn.
76. Mae cymal 44 yn darparu ar gyfer darpariaethau trosiannol.

Cymalau 45 a 46 – Pwerau i addasu cwmpas

77. Mae cymal 45 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau i ddiwygio unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 1 sy'n gymwys i gynhyrchion tybaco drwy estyn y cwmpas i gynnwys unrhyw ddyfais sy'n ei gwneud yn bosibl i gynnyrch tybaco gael ei ddefnyddio (megis dyfais neu bibell cynhesu tybaco), neu eitem y bwriedir iddi fod yn rhan o'r cyfryw ddyfais. Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â phersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol a chael cydsyniad Gweinidogion Cymru os bydd y rheoliadau yn cynnwys darpariaethau sy'n dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

78. Mae cymal 46 yn darparu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru fel y bo'n briodol i wneud rheoliadau i ddiwygio'r diffiniad o "dogfen adnabod" yng nghymal 1 a chymal 10. Drwy hyn gellir diweddarau'r rhestr o ddogfennau adnabod y gall manwerthwyr eu defnyddio i gadarnhau oedran cwsmer os bydd mathau newydd o brawf adnabod yn cael eu datblygu neu os bydd eraill yn peidio â chael eu defnyddio mwyach. Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Cymal 47 – Cymhwyso i'r Goron

79. Mae cymal 47 yn darparu bod Rhan 1 o'r Bil ac unrhyw reoliadau a wneir o dan Ran 1 yn rhwymo'r Goron. Mae hyn yn golygu bod y cyfyngiadau newydd ar yr oedran gwerthu yn gymwys mewn perthynas â phob corff a phob person sy'n gweithredu fel gweision y Goron megis adrannau'r llywodraeth, carchardai sy'n cael eu rhedeg gan wasanaeth carchardai Ei Fawrhydi, ac aelodau o'r lluoedd arfog, er na chaniateir gwneud y Goron ei hun yn atebol yn droseddol.

Cymalau 48 a 49 – Dehongli etc

80. Mae cymal 48 yn darparu'r diffiniadau ar gyfer Rhan 1.

81. Mae cymal 49 yn rhoi ystyr cynnyrch nicotin.

Mae Rhan 2 yn ymdrin â gwerthu a dosbarthu yn yr Alban. Mae Rhan 3 yn ymdrin â gwerthu a dosbarthu yng Ngogledd Iwerddon.

Rhan 4: Snŵs etc: Pwerau atafaelu a chadw

82. Mae'r mesurau a amlinellir yn Rhan 4 yn rhychwantu'r DU gyfan gan eu bod yn ymwneud â'r gofynion ynglŷn ag atafaelu a chadw cynhyrchion tybaco perthnasol a gymerir drwy'r geg. Bydd hyn yn cymhwyso safonau unffurf ar gyfer cynhyrchion a fewnforir i'r DU.

83. Y cymal perthnasol yn y Rhan hon, y mae angen cydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer, yw:

- Cymal 89 – Pŵer swyddog Cyllid a Thollau i atafaelu a chadw snŵs etc

84. Mae cymal 89 yn galluogi swyddogion tollau i atafaelu a chadw cynhyrchion tybaco perthnasol a gymerir drwy'r geg a fewnforiwyd er mwyn galluogi awdurdod gorfodi i ymgymryd â'r cyfrifoldeb. Fodd bynnag, ni chaniateir cadw'r cynhyrchion tybaco perthnasol a gymerir drwy'r geg am gyfnod o fwy na 48 awr. Mae Comisiynwyr Cyllid a Thollau ei Fawrhydi yn gyfrifol am ymdrin â'r cynhyrchion tybaco perthnasol a gymerir drwy'r geg yn ystod y cyfnod cadw. Ni fydd y cymal hwn yn atal snŵs rhag cael eu mewnforio at ddefnydd personol.

Rhan 5: Gofynion ynglŷn â chynhyrchion a gofynion ynglŷn â gwybodaeth etc

85. Mae'r mesurau yn Rhan 5 yn rhychwantu'r DU gyfan. Mae'r Rhan yn cynnwys cyfres o bwerau i wneud rheoliadau i'w gwneud yn bosibl gosod gofynion mewn perthynas â safonau cynnyrch, gan gynnwys pecynnu, nodweddion cynhyrchion,

cynnwys a chyflasynnau. Mae'r darpariaethau hefyd yn ei gwneud yn bosibl sefydlu cynllun cofrestru, fel y gellir darparu gwybodaeth i gynorthwyo'r cofrestru, i wirio cydymffurfiaeth â safonau cynnyrch ac i brofi ansawdd a diogelwch cynhyrchion.

86. Yn y Rhan hon ystyr cynhyrchion perthnasol ("relevant products") yw cynhyrchion tybaco, dyfeisiau sy'n gysylltiedig â thybaco, cynhyrchion ysmegu llysieuol, papurau sigarêts, cynhyrchion fepio a chynhyrchion nicotin.
87. Y cymalau perthnasol yn y Rhan hon sy'n bodloni'r prawf yn RhS29 yw:
- Cymalau 90 i 93 – Gofynion ynglŷn â chynhyrchion etc
 - Cymal 94 – Delweddau nad ydynt yn cydymffurfio
 - Cymalau 95 i 98 – Gofynion ynglŷn â chofrestru a gwybodaeth
 - Cymalau 99 a 100 – Rheoli ansawdd a diogelwch
 - Cymalau 101 a 102 -Materion y mae Rheoliadau 2016 yn ymdrin â nhw
 - Cymalau 103 i 109 – Atodol ac amrywiol
 - Cymalau 110 a 111 – Ymgynghori a chydysyniad
 - Cymalau 112 a 113 – Dehongli
88. Cyn gwneud rheoliadau o dan Ran 5, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban a Swyddfa'r Weithrediaeth yng Ngogledd Iwerddon os bydd y rheoliadau yn cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, Senedd yr Alban neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, fel y'i hamlinellir yng nghymal 111 (Cydsynio i reoliadau o dan Ran 5). Bydd unrhyw reoliadau a wneir o dan Ran 5 o'r Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Cyn arfer unrhyw un o'r pwerau yn y Rhan hon mae dyletswydd i ymgynghori.
89. Mae cymalau 90 a 91 yn ailddeddfu'r pwerau gwneud rheoliadau, gydag addasiadau, i wneud darpariaeth ynghylch pecynwaith manwerthu a nodweddion cynnyrch cynhyrchion tybaco yn adran 94 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (Deddf 2014). Mae'r Bil yn diddymu adran 94 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 gan fod y darpariaethau wedi'u hailddatgan yn y Bil hwn. Cafodd Rheoliadau Pecynwaith Safonedig i Gynhyrchion Tybaco 2015 eu gwneud gan ddefnyddio'r pwerau yn adran 94. Gan fod y Bil yn ailddeddfu'r pwerau hyn, mae adran 17(2)(b) o Ddeddf Dehongli 1978 yn golygu y bydd y Rheoliadau hynny yn parhau mewn grym.
90. O dan Reoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016 (Rheoliadau 2016), mae'n ofynnol i gynhyrchwyr cynhyrchion tybaco, cynhyrchion ysmegu llysieuol a fêps nicotin hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol cyn i'r cynhyrchion hyn gael eu cyflwyno ar farchnad y DU. Mae cymal 95 (Cofrestru) yn caniatáu ar gyfer sefydlu cynllun cofrestru a fyddai'n disodli'r system hysbysu bresennol yn Rheoliadau 2016 gan ehangu'r cynllun i gwmpasu pob cynnyrch sydd o dan gyfyngiad. Bydd y pwerau gwneud rheoliadau newydd hyn yn helpu i wella diogelwch cynhyrchion sydd ar y farchnad ac i wella hyder cwsmeriaid a hefyd ei gwneud yn bosibl i wella'r ffordd y gorfodir cyfyngiadau ynglŷn â chynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio. Bydd y gofynion i roi gwybod am gynhyrchion tybaco, cynhyrchion ysmegu llysieuol a chynhyrchion fepio nicotin yn parhau ar waith hyd nes bod y cynllun cofrestru newydd wedi ei sefydlu.

91. Mae cymal 112 (Dehongli Rhan 5) a chymal 113 (Ystyr cynnyrch nicotin, “nicotine product”) yn rhoi diffiniadau ar gyfer Rhan 5, gan gynnwys ystyr pecynwaith (“packaging”) a phecyntwaith manwerthu (“retail packaging”).

Cymalau 90 i 93 – Gofynion ynglŷn â chynhyrchion etc.

92. Mae cymal 90 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ynghylch pecynwaith cynhyrchion perthnasol (“relevant products”). Gellid defnyddio'r pŵer i reoleiddio pecynwaith manwerthu, gan gynnwys ymddangosiad y cyfryw becynwaith yn ogystal â'r wybodaeth a ddarperir arno a'i siâp a'i wead. Gellir trin cynhwysydd ail-lenwi sy'n cynnwys hylif fepio fel pecynwaith at y dibenion hyn.
93. Mae cymal 91 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ynglŷn â nodweddion cynhyrchion perthnasol. Mae hyn yn ailddeddfu'r pŵer presennol i wneud darpariaeth ynghylch y nodeddion cynnyrch ar gyfer tybaco yn adran 94(8) o Ddeddf 2014 gyda rhai addasiadau. Mae'r gofynion hyn yn ymwneud â'r cynnyrch ei hun, yn hytrach na'r pecynwaith, er enghraifft lliw'r cynhyrchion neu'r hyn y gellir ei argraffu ar gorff y cynnyrch (megis delweddau, er enghraifft), ymddangosiad y cynhyrchion a'u siâp. Mae cymal 112 yn rhoi'r diffiniad o cynhyrchu (“production”) ac yn nodi'n glir y gall rheoliadau gwmpasu cynhyrchu y tu allan i'r DU.
94. Mae cymal 92 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ynglŷn â'r sylweddau y gellir eu cynnwys (yn ogystal â faint o unrhyw sylwedd penodol sy'n cael ei gynnwys) a chyflasyn cynhyrchion perthnasol. Gellid defnyddio rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn i gyfyngu ar gyflasyn unrhyw ategolion y bwriedir eu defnyddio i gyflasu unrhyw un o'r cynhyrchion hyn. Er enghraifft, caiff rheoliadau wahardd cynhwysion penodol (megis fitaminau, lliwio neu ychwanegion gwaharddedig) rhag cael eu defnyddio yn y cynhyrchion hyn, gan gynnwys ychwanegion sy'n rhoi cyflasyn penodol (blas ac arogl).
95. Mae cymal 93 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ynglŷn â natur sylweddau ac allyriadau y gall “cynhyrchion perthnasol” eu rhyddhau, a faint ohonynt. Mae'r pŵer yn cynnwys gwneud darpariaethau ynglŷn â sut y pennir natur sylwadau neu allyriadau, a faint ohonynt.

Cymal 94 – Delweddau nad ydynt yn cydymffurfio

96. Mae cymal 94 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau i wahardd person rhag cyhoeddi delwedd nad yw'n cydymffurfio (“non-compliant image”) o gynhyrchion perthnasol. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, pe bai rheoliadau yn cael eu gwneud i gyfyngu ar becynwaith fêp, yna byddai'n drosedd cyhoeddi delwedd o fêp mewn pecynwaith nad oedd yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau hynny ynglŷn â phecyntwaith. Mae cymal 94 yn rhychwantu pob cynnyrch a delweddau y mae'n bosibl dweud bod cynnyrch (neu ei becynwaith) yn torri'r rheoliadau o edrych arnynt. Mae hyn yn golygu na fyddai manwerthwr ar-lein yn gallu bod â delweddau ar ei wefan sy'n arddangos pecynwaith neu gynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio. Er enghraifft, arddangos delwedd o

becynwaith fêps heb yr arwyddion rhybuddio mandadol. O dan y Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig, gwaherddir cyhoeddi delweddu o gynhyrchion tybaco nad ydynt yn cydymffurfio, sy'n adlewyrchu'r gofynion presennol ynglŷn â pheconwaith cynhyrchion tybaco.

Cymalau 95 i 98 – Gofynion ynglŷn â chofrestru a gwybodaeth

97. Mae cymal 95 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i sefydlu cofrestru o "cynhyrchion perthnasol". Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol rhoi gwybod am dybaco, cynhyrchion ysmegu llysiuol a fêps nicotin cyn eu gosod ar farchnad y DU. Gallai rheoliadau bennu, er enghraifft, pwy sy'n cael cadw'r gofrestr, pwy sy'n gymwys i gofrestru cynnyrch, cynnwys y gofrestr, cyhoeddi'r gofrestr, a ffioedd i gynnal y gofrestr. Hefyd, caiff rheoliadau nodi pryd y bydd cofrestrriad cynnyrch yn dod i ben neu'n adnewyddu neu pryd y gellir ei ganslo neu ei atal dros dro. Caiff pwerau hefyd bennu gofynion ar gyfer, er enghraifft, ddelweddu cynnyrch neu ei becynwaith. Caiff rheoliadau hefyd ei gwneud yn ofynnol rhoi rhesymau dros gynnwys cynhwysyn, copïau o ddelweddu o'r cynnyrch a gwybodaeth sy'n berthnasol i unrhyw risgiau a amheuir i iechyd neu ddiogelwch pobl, ymhlith pethau eraill.
98. O dan y Rheoliadau, gellid ei gwneud yn drosedd cyflenwi cynnyrch nad yw wedi'i gofrestru, yn yr un modd ag y mae'n drosedd ar hyn o bryd cyflenwi cynnyrch nad yw wedi'i hysbysu. Mae'r pŵer hefyd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i bennu lefel y ffioedd sy'n daladwy i gofrestru. Caniateir pennu'r ffioedd ar lefel a fydd yn talu cost cyflawni unrhyw swyddogaethau o dan Ran 5 neu o dan reoliadau a wneir o dan Ran 5. Er enghraifft, cost monitro, cynhyrchu adroddiadau blynyddol a chynnal digwyddiadau i gynorthwyo cydymffurfiaeth.
99. Mae cymal 96 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchydd neu fewnforiwr cynnyrch perthnasol ddarparu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r cynnyrch neu ei gynhyrchydd, er enghraifft data ar werthiannau neu ddata ymchwil i'r farchnad. Caiff y rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn wneud darpariaeth ynglŷn â phryd a sut y mae'n rhaid darparu'r wybodaeth a hefyd ynglŷn â chyhoeddi gwybodaeth a ddarperir o dan y rheoliadau.
100. Mae cymal 97 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchydd "cynnyrch perthnasol" gynnal astudiaeth a chyflwyno'r canlyniadau mewn perthynas â'r cynnyrch neu gynhwysyn yn y cynnyrch. Caiff y rheoliadau wneud darpariaethau ynglŷn â sut y dylid cynnal astudiaeth, y cwestiynau y dylid ymdrin â nhw a chynnwys a strwythur adroddiad. Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaeth ynglŷn â gofynion manwl yr astudiaeth.
101. Mae cymal 98 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchydd "cynnyrch perthnasol" enwebu unigolyn i fod yn gyfrifol am wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu yn unol â rheoliadau a wneir o dan gymalau 95, 96 a 97. Nod enwebu person cyfrifol penodedig yw sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i gryfhau cydymffurfiaeth â safonau cynhyrchion a'u gorfodi ac, yn y pen draw, i helpu i wella diogelwch ac ymddiriedaeth defnyddwyr. Caiff rheoliadau o dan y cymal hwn wneud darpariaethau ynglŷn â phwy sy'n gymwys

i gael ei enwebu'n berson cyfrifol a'i gwneud yn ofynnol i'r person fod â chysylltiad â'r DU.

Cymal 99 – Rheoli ansawdd a diogelwch

102. Mae cymal 99 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflwyno rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson brofi cynhyrchion i benderfynu a yw cynnyrch yn cydymffurfio â gofynion a osodir mewn rheoliadau a wneir o dan y Rhan hon o'r Bil. Caiff rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn gynnwys darpariaeth ynglŷn â'r gofynion ar gyfer profion, megis sut a phryd y dylid cynnal y profion a phwy a gaiff eu cynnal, ac unrhyw ffioedd cysylltiedig y dylid eu talu.
103. Mae cymal 100 yn ymwneud â diogelwch cynnyrch. Mae'n rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ei gwneud yn ofynnol, er mwyn lleihau'r risgiau i iechyd a diogelwch pobl, i gynhyrchwyr neu fewnforwyr gael proses ar waith ar gyfer casglu gwybodaeth am effaith eu cynnyrch ar iechyd a diogelwch pobl. Mae'r cymal hefyd yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud sy'n rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w gwneud yn ofynnol bod cynnyrch yn cael ei adalw o'r farchnad neu i wahardd cyflenwad o gynnyrch neu gyfyngu arno mewn amgylchiadau a nodir yn y rheoliadau. Er enghraifft, os oes risg ddifrifol i iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol nodi amgylchiadau lle y gallai cynhyrchion gael eu gwahardd neu eu hadalw.

Cymalau 101 i 102 – Materion y mae Rheoliadau 2016 yn ymdrin â nhw

104. Mae cymal 101 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth mewn rheoliadau sy'n debyg i unrhyw ddarpariaeth sy'n weddill yn Rheoliadau 2016 neu'n cyfateb iddi. Bydd hyn yn sicrhau y cwmpeisir unrhyw fylchau a all fodoli yn y pwerau a gymerir o dan Ran 5 o'u cymharu â darpariaeth a wnaed yn Rheoliadau 2016. Cafodd Rheoliadau 2016 eu gwneud o dan y pŵer yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 i roi Cyfarwyddeb 2014/40/UE ar waith. Mae'r pŵer hefyd yn ei gwneud yn bosibl diwygio Rheoliadau 2016 fel bod unrhyw ddarpariaeth yn y rheoliadau hynny yn gymwys i gynhyrchion cysylltiedig nad yw Rheoliadau 2016 yn gymwys iddynt ar hyn o bryd.
105. Mae cymal 102 yn caniatáu ar gyfer rheoliadau sy'n dirymu rhannau o Reoliadau 2016 heb eu disodli ac mae'n nodi'n glir y dylai unrhyw bŵer i wneud rheoliadau o dan Ran 5 sy'n cyfateb i'r darpariaethau o dan Reoliadau 2016 gael ei ddehongli fel pŵer i wneud rheoliadau o dan y Rhan hon yn unol ag adran 14 o Ddeddf Dehongli 1978 (Pŵer ymhlyg i ddiwygio).

Cymalau 103 i 109 – Atodol ac amrywiol

106. Mae cymal 103 yn darparu ar gyfer creu troseddau am fethu â chydymffurfio ag unrhyw reoliadau a wneir o dan Ran 5, ac mae'n nodi'r cosbau uchaf y gellid eu gosod am fethu â chydymffurfio.
107. Mae cymal 104 yn darparu ar gyfer darpariaethau ynglŷn â gorfodi sydd i'w cynnwys mewn rheoliadau a wneir o dan Ran 5 a chaiff roi swyddogaeth gorfodi'r rheoliadau i awdurdodau gorfodi perthnasol (awdurdod pwysau a

mesurau lleol yng Nghymru). Caiff y rheoliadau wneud yr un darpariaethau ag a wneir yn y Bil hwn o dan gymalau 35 a 36, a thrwy hynny ganiatáu i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol (Gweinidogion Cymru yng Nghymru) ymgymryd â'r cyfrifoldeb am orfodi, neu ddwyn achos cyfreithiol mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnir o dan y rheoliadau, oddi wrth awdurdod gorfodi perthnasol. Caiff rheoliadau roi pwerau priodol i awdurdodau gorfodi i gyflawni gweithgareddau gorfodi, megis pwerau i gael gwybodaeth, atafaelu neu fforffedu nwyddau yr amheuir nad ydynt yn cydymffurfio. Gellir gwneud hyn drwy gymhwyso darpariaethau yn Neddf Diogelu Defnyddwyr 1987 neu wneud darpariaeth ar wahân sy'n cyfateb i ddarpariaethau'r Ddeddf honno neu sy'n debyg iddynt.

108. Mae cymal 105 yn darparu ar gyfer is-ddirprwyo deddfwriaethol. Mae hyn yn caniatáu i'r rheoliadau roi disgresiwn. Er enghraifft, gallai hyn ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi person i wneud penderfyniad neu ddyfarniad at ddibenion y rheoliadau. Tybir bod hyn yn briodol o ystyried natur rhai o'r ymatebion y mae'r rheoliadau yn ymdrin â nhw. Er enghraifft, o dan gymal 99 (Profion), caiff rheoliadau ddarparu bod rhaid i brofion gael eu cynnal ar gynhyrchion penodol. Efallai y bydd yn briodol nodi manylebau technegol manwl ar gyfer profion mewn canllawiau yn hytrach nag yn y ddeddfwriaeth.
109. Mae cymal 106 yn darparu, pan fydd rheoliadau yn cael eu gwneud o dan Ran 5, y bydd y gofynion a osodir o dan y rheoliadau yn gymwys i'r Goron (hynny yw, pob un o weision cyhoeddus y Goron, megis adrannau'r llywodraeth, carchardai sy'n cael eu rhedeg gan wasanaeth carchardai Ei Fawrhydi, ac i aelodau o'r lluoedd arfog). Mae cymal 107 yn darparu y caiff darpariaeth ganlyniadol a wneir drwy reoliadau o dan Ran 5 ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfwriaeth (pa bryd bynnag y cafodd ei phasio neu ei gwneud).
110. Mae cymal 108 yn hepgor adran 94 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (Deddf 2014) sy'n ymwneud â'r gyfraith bresennol ar becynwaith manwerthu a nodweddion cynnyrch tybaco gan fod y rhain wedi'u disodli a'u diweddarau gan y Bil hwn ac nad oes eu hangen mwyach, felly. Cafodd Rheoliadau Pecynwaith Safonedig i Gynhyrchion Tybaco 2015 eu gwneud gan ddefnyddio'r pwerau yn adran 94. Bydd y rhain yn parhau mewn grym.
111. Mae cymal 109 yn dwyn diffyg cydymffurfiaeth â gofynion y Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig o fewn cwmpas y gyfundrefn orfodi a sefydlwyd o dan Ran 3 o Ddeddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr 2024 drwy ychwanegu Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016 at y rhestr o is-ddeddfwriaeth yn Atodlen 15 i'r ddeddf honno. Effaith y diwygiad hwn yw galluogi awdurdodau pwysau a mesurau lleol (sy'n cynnwys awdurdodau datganoledig Cymreig) i ddefnyddio'r pwerau gorfodi mewn llys sydd yn y Ddeddf hon i orfodi darpariaethau Rheoliadau 2016. Mae diwygiad tebyg wedi'i wneud yng nghymal 41(1), atodlen 6, paragraff 29, ond mae'n caniatáu i'r un awdurdodau ddefnyddio'r pwerau i orfodi darpariaethau'r Bil pan ddaw'n gyfraith.

Cymalau 110 a 111 – Ymgynghori a chydsyniad

112. Mae cymal 110 yn nodi'r ddyletswydd i ymgynghori ac mae'n hunanesboniadol.
113. Mae cymal 111 yn cadarnhau y caiff rheoliadau a wneir o dan Ran 5 ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y llywodraethau datganoledig. Felly, gwneir darpariaeth yng nghymal 111 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban a Swyddfa'r Weithrediaeth yng Ngogledd Iwerddon os bydd darpariaethau'r rheoliadau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y deddfwrfeydd datganoledig.

Cymalau 112 a 113 – Dehongli

114. Mae cymal 112 yn darparu diffiniadau ar gyfer y termau perthnasol a ddefnyddir yn Rhan 5 o'r Bil.
115. Mae cymal 113 yn rhoi ystyr "cynnyrch nicotin" ar gyfer Rhan 5.

Rhan 6: Hysbysebu a noddi

116. Cyflwynodd Deddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002 ("Deddf 2002") fesurau i gyfyngu ar farchnata a hyrwyddo cynhyrchion tybaco a lleihau amlygiad i hysbysebion tybaco a gweithgareddau hyrwyddo. Roedd Deddf 2002 yn gwahardd hysbysebu cynhyrchion tybaco i'r cyhoedd, gydag eithriad ar gyfer siopau gwerthu tybaco arbenigol. Roedd hefyd yn gwahardd cytundebau nawdd sy'n hyrwyddo cynhyrchion tybaco. Mae'r Bil hwn yn diddymu Deddf 2002 ac yn ei disodli. Mae cymalau yn Rhan 6 o'r Bil yn gwneud darpariaeth debyg i Ddeddf 2002 ynglŷn â hysbysebu, noddi a rhannu brand i gynnwys cynhyrchion ysmegu llysiuol, papurau sigarêts, cynhyrchion fepio a nicotin, i'r DU gyfan.
117. Bydd y cyfyngiadau presennol ar hysbysebu fêps nicotin fel y'u nodwyd yn Rheoliadau 2016 yn cael eu disodli gan y darpariaethau yn Rhan 5 o'r Bil hwn. Effaith y darpariaethau hyn fydd y bydd unrhyw hysbyseb a gyhoeddir ar gyfer cynnyrch perthnasol, ni waeth ble mae'n ymddangos, yn cael ei wahardd. Bydd darpariaeth a wneir yn y Bil yn cadw'r gwaharddiad presennol ar hysbysebu tybaco. Mae Deddf 2002 hefyd yn gwahardd dosbarthu cynhyrchion tybaco am ddim a'u harddangos. Gwneir darpariaeth ar gyfer arddangosfeydd manwerthu yng nghymalau 13 a 14 (Arddangos cynhyrchion neu brisiau yn Lloegr, ac yng Nghymru). Mae'r gwaharddiad ar ddsbarthu cynhyrchion tybaco am ddim a'u gwerthu am brisiau gostyngol yn cael ei estyn yn y Bil i gynnwys yr holl gynhyrchion perthnasol (cymal 15).
118. Yn y Rhan hon, ystyr cynhyrchion perthnasol yw cynnyrch tybaco, cynnyrch ysmegu llysiuol, papur sigarêts, cynnyrch fepio, neu gynnnyrch nicotin.
119. Ni fwriedir i'r gwaharddiadau ar hysbysebu, hyrwyddo, rhannu brand a noddi yn Rhan 6 atal y cyhoedd yn gyffredinol, megis newyddiadurwyr etc, rhag gwneud sylwadau achlysurol ar y cynhyrchion perthnasol, ac nid oes bwriad

ychwaith i wahardd y rhai sy'n ymwneud â materion creadigol neu artistig (actorion, peintwyr, cynhyrchwyr etc) rhag portreadu'r cyfryw gynnyrch.

120. Y cymalau perthnasol yn y Rhan hon sy'n bodloni'r prawf yn RhS 29 yw:

- Cymalau 114 i 119 – troseddau hysbysebu amrywiol
- Cymalau 120 i 122 – amddiffyniadau ac eithriadau rhag troseddau hysbysebu
- Cymalau 123 – Rhannu brand
- Cymal 124 a 125 – Nawdd i gynhyrchion tybaco, fepio a nicotin;
- Cymalau 126 a 127 – Gwasanaethau clywedol a darlledu radio
- Cymal 128 – Troseddau gan gyrrff
- Cymalau 129 i 131 – Gorfodi
- Cymal 132 – Cysoni diffiniad mewn hen ddeddfwriaeth hysbysebu hyd nes y ceir un newydd
- Cymal 133 - Pŵer i estyn darpariaethau hysbysebu, a darpariaethau ynghylch darlledwyr teledu a radio a darlledwyr eraill, i ddyfeisiau tybaco wedi'u gynhesu;
- Cymal 134 – Cymhwysu i'r Goron
- Cymal 135 – Dehongli

Cymalau 114 i 119 – Troseddau hysbysebu

121. Mae cymal 114 yn ei gwneud yn drosedd cyhoeddi hysbyseb am gynnyrch perthnasol yn y DU. Mae hyn yn cynnwys hysbysebion yn y cyfryngau, er enghraifft cyhoeddi hysbyseb am gynnyrch fepio mewn papur newydd.

122. Mae cymal 115 yn ei gwneud yn drosedd dylunio a gwneud hysbyseb am gynnyrch perthnasol a fydd yn cael ei chyhoeddi yn y DU. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys person mewn asiantaeth ddylunio sy'n dylunio hysbyseb ar gyfer pwrs dybaco.

123. Mae cymal 116 yn ei gwneud yn drosedd argraffu hysbyseb am gynnyrch perthnasol gan wybod y bydd yn cael ei chyhoeddi yn y DU.

124. Mae cymal 117 yn ei gwneud yn drosedd dosbarthu hysbyseb am gynnyrch perthnasol yn y DU. Gallai hyn gynnwys cwmni sy'n dosbarthu taflenni sy'n cynnwys hysbysebion ar gyfer fêps.

125. Mae cymal 118 yn ei gwneud yn drosedd achosi i hysbyseb am gynnyrch perthnasol gael ei chyhoeddi, ei dylunio, ei hargraffu neu ei dosbarthu gan wybod y bydd hon yn cael ei chyhoeddi neu ei dosbarthu yn y DU. Er enghraifft, byddai hyn yn ei gwneud yn drosedd i rywun gomisiynu asiantaeth hysbysebu i greu hysbyseb cynnyrch nicotin ar ei ran.

126. Mae cymal 119 yn ei gwneud yn drosedd darparu gwasanaeth rhyngwyd, wrth gynnal busnes, fel modd i gyhoeddi neu ddosbarthu hysbyseb i hyrwyddo cynnyrch perthnasol yn y DU. Er enghraifft, byddai gwasanaeth marchnata drwy

e-bost yn cyflawni trosedd pe bai unrhyw un o'r negeseuon e-bost yn cynnwys hysbyseb am unrhyw un o'r cynhyrchion perthnasol.

Cymalau 120 i 122 – Amddiffyniadau ac eithriadau hysbysebu

127. Mae cymal 120 yn nodi amddiffyniadau i berson sy'n cael ei gyhuddo o drosedd o dan gymalau 114 i 119 (114 (Cyhoeddi hysbysebion), cymal 115 (Dylunio hysbysebion), cymal 116 (Argraffu hysbysebion), cymal 117 (Dosbarthu hysbysebion), 118 (Achos cyhoeddi, dylunio, argraffu neu ddosbarthu) a chymal 119 (Gwasanaethau rhyngwladol). Mae hyn yn cynnwys achosion pan fo'r hysbyseb yn rhan o gyfathrebiad wrth gynnal busnes mewn masnach berthnasol rhwng y rhai sy'n ymwneud â'r fasnach ar lefel uwch neu sydd â chyfrifoldeb am wneud penderfyniadau. At hynny, mae'n amddiffyniad os yw unigolyn yn gofyn yn benodol am wybodaeth am gynnyrch perthnasol, neu os yw'r hysbyseb wedi'i chynnwys mewn cyhoeddiad a argraffwyd y tu allan i'r DU ac nad yw ei farchnad yn y DU (ac eithrio cylchgrawn ar daith awyren). Masnach berthnasol yw masnach yn un o'r cynhyrchion perthnasol.
128. Mae cymal 121 yn darparu y caiff siopau gwerthu tybaco arbenigol barhau i hysbysebu cynhyrchion tybaco o fewn y cyfyngiadau a bennwyd. Mae'r cymal hwn yn ailddatgan y gyfraith bresennol. Ni fydd person yn cyflawni trosedd o dan gymalau 114 i 118 os yw hysbyseb mewn siop gwerthu tybaco arbenigol, os nad yw'n weladwy o'r tu allan i'r siop gwerthu tybaco arbenigol ac nad yw'n hysbysu sigarêts na thybaco rholio â llaw. Caiff rheoliadau gan Weinidogion Cymru osod gofynion i hysbysebion arddangos rhybudd iechyd. Mae'r rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.
129. Diffinnir siop gwerthu tybaco arbenigol yn y cymal.
130. Mae cymal 122 yn darparu na fydd trosedd yn cael ei chyflawni o dan y Rhan hon os yw cynnyrch neu ddeunydd arall a arddangosir yn ddarostyngedig i'r gyfraith sy'n ymwneud ag arddangos. Ar gyfer Cymru, mae'r gyfraith ynghylch arddangos cynnyrch wedi'i nodi yng nghymal 14 y Bil. Diben y ddarpariaeth hon yw osgoi gwahardd arddangosiad a ganiateir fel hysbyseb. Er enghraifft, ni fyddai arddangos fêp ar bedestal yn cael ei ystyried yn hysbyseb pe bai fêps yn ddarostyngedig i gyfyngiadau a nodir mewn deddfwriaeth ynglŷn â'u harddangos.

Cymal 123 – Rhannu brand

131. Mae cymal 123 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflwyno rheoliadau sy'n gwahardd rhannu brand cynhyrchion perthnasol. Mae rhannu brand, neu ymestyn brand fel y'i gelwir weithiau, yn fath o hysbysebu anuniongyrchol sy'n hyrwyddo'r defnydd o gynnyrch tybaco, cynnyrch ysmegu llysiuol, papur sigarêts, cynnyrch fepio neu gynnyrch nicotin drwy roi ei frand ar gynhyrchion neu wasanaethau eraill, neu fel arall. Mae defnyddio logo cynnyrch tybaco ar grys T neu gwmni melysion yn defnyddio ei frand ar fêp yn enghreifftiau o rannu brand os y bwriad yw hyrwyddo fêps.

132. Mae'r pŵer hefyd yn darparu ar gyfer creu troseddau am fethu â chydymffurfio â'r rheoliadau a chaiff unrhyw un a geir yn euog o drosedd ei garcharu, ei ddirwyo (lle nad oes uchafswm) neu'r ddau.
133. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad gan Weinidogion yr Alban a'r Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon cyn gwneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan adlewyrchu'r ffaith bod rheoleiddio hysbysebu wedi'i ddatganoli'n rhannol i'r Alban a Gogledd Iwerddon.

Cymalau 124 a 125 – Noddi

134. Mae cymal 124 yn ei gwneud yn drosedd i unigolyn fod yn rhan o gytundeb noddi os y diben yw hyrwyddo cynnyrch tybaco wrth gynnal busnes. Mae hyn yn parhau â'r gwaharddiad presennol ar nawdd tybaco yn Neddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002. Caiff unrhyw un a geir yn euog o drosedd o dan y ddarpariaeth hon ei garcharu (am gyfnod nad yw'n fwy na 2 flynedd) neu ei ddirwyo, neu'r ddau.
135. Mae cymal 125 yn ei gwneud yn drosedd i unigolyn fod yn barti mewn cytundeb noddi os y diben yw hyrwyddo cynnyrch ysmygu llysieuol, papur sigarêts, cynnyrch fepio, neu gynnyrch nicotin wrth gynnal busnes. Er enghraifft, bydd y cymal hwn yn gwahardd timau chwaraeon rhag cael eu noddi gan gwmni fêps.
136. Bydd cymal 125 yn gymwys i unrhyw gytundeb yr ymrwymir iddo ar ôl i'r adran hon ddod i rym ddeufis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Bydd cymal 124 yn cymryd effaith o ddyddiad sydd i'w bennu mewn rheoliadau (cymal169(2)(b)). O'r dyddiad perthnasol, bydd yn drosedd os bydd y naill barti neu'r llall yn gwneud cyfraniad o dan y cytundeb ac yn gwneud unrhyw beth y bydd ei ddiben neu ei effaith yn hyrwyddo un o'r cynhyrchion hyn. Gall cytundebau ar gyfer cynhyrchion fepio a nicotin yr ymrwymwyd iddynt cyn y daw cymal 125 i rym barhau hyd nes y bydd rheoliadau yn pennu dyddiad lle y byddai unrhyw weithredoedd pellach o dan gytundeb sy'n bodoli eisoes yn drosedd.
137. Caiff unrhyw un a geir yn euog o drosedd o dan y ddarpariaeth hon ei garcharu (am gyfnod nad yw'n fwy na 2 flynedd) ei ddirwyo lle nad oes uchafswm, neu'r ddau.

Cymalau 126, 127 ac Atodlen 10 – Gwasanaethau clywedol a darlledu radio

138. Mae cymal 126 yn darparu eithriad rhag Rhan 6 ar gyfer darlledwyr penodol. Mae'n amlinellu nad yw Rhan 6 o'r Bil hwn yn gymwys i wasanaethau teledu a radio annibynnol, nac i'r Gorfforaeth Darlledu Brydeinig (BBC) na Sianel Pedwar Cymru, gwasanaethau rhaglenni ar alw, na gwasanaethau rhaglenni ar-alw o'r tu allan i'r DU sy'n wasanaeth Haen 1 fel y'i diffiniwyd yn Neddf Cyfathrebu 2003. Mae hyn oherwydd bod hysbysebu a nawdd wedi'u gwahardd ar y gwasanaethau hyn o dan reoliadau gan y Swyddfa Gyfathrebu fel y nodir yn Neddf Cyfathrebu 2003.

139. Mae cymal 127 yn hunanesboniadol ac mae'n cyflwyno Atodlen 16. Mae Atodlen 16 yn diwygio Deddf Cyfathrebu 2003 ("Deddf 2003") er mwyn iddi hefyd fod yn gymwys i gynhyrchion fepio, cynhyrchion ysmegu llysiuol, papurau sigarêts, a chynhyrchion nicotin. Effaith yr atodlen hon yw sicrhau bod y gwaharddiad ar hysbysebu fêps ar wasanaethau rhaglenni teledu, radio, ac ar alw a roddwyd ar waith yn Neddf 2003 yn cael ei estyn er mwyn i'r holl gynhyrchion hynny a grybwyllir gael eu cwmpasu a dod o dan y gwaharddiad ar hysbysebu a ddatganwyd gan Ddeddf 2003. Felly, bydd y gwaharddiadau hyn yn parhau i gael eu llywodraethu gan y darpariaethau presennol yn Neddf 2003 yn hytrach na thrwy'r Bil ei hun, yn wahanol i fesurau hysbysebu eraill.
140. Gellir gwneud diwygiad tebyg drwy gymal 133 i estyn cwmpas y cynhyrchion a ddelir gan ddarpariaethau perthnasol Deddf Cyfathrebu 2003.

Cymal 128 – Troseddau gan gyrrff

141. Mae cymal 128 yn gwneud "person perthnasol" (cyfarwyddwr neu reolwr cwmni neu rywun sydd â statws partner mewn partneriaeth) yn atebol am drosedd o dan Ran 6 o'r Bil a gyflawnir gan gorff, os yw'r drosedd wedi cael ei chyflawni â chydysniad, ymoddefiad neu esgeulustod y person hwnnw. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl y byddai'r person perthnasol yn atebol yn ogystal â'r corff (megis y cwmni neu'r bartneriaeth) mae'n gweithio iddo. Mae hyn yn gymwys i droseddau mewn cymalau yn Rhan 6 yn ogystal â rheoliadau a wneir o dan y Rhan honno. Mae'r cymal yn nodi diffiniadau o gorff a pherson perthnasol.

Cymalau 129 i 131 – Gorfodi

142. Mae cymal 129 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau gorfodi perthnasol i orfodi'r darpariaethau yn Rhan 6 o'r Bil a'r rheoliadau a wneir o dan bwerau yn Rhan 6. Awdurdod gorfodi perthnasol yw awdurdod pwysau a mesurau lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban (e.e. Safonau Masnach Awdurdodau Lleol), a chyngor dosbarth yng Ngogledd Iwerddon.
143. Mae cymal 130 yn rhoi pŵer i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol (yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban neu'r Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon) i orfodi achos penodol neu fath penodol o achos yn lle'r awdurdod gorfodi lleol perthnasol. Effaith hyn yw y bydd awdurdod gorfodi cenedlaethol yn cynnal yr ymchwiliad ac yn cymryd y camau gorfodi, yn hytrach na'r awdurdod gorfodi lleol, fel y'i rhagnodwyd yng nghymal 129 (Awdurdodau gorfodi). Gallai hyn godi os na fydd awdurdod gorfodi lleol yn gallu neu'n barod i gymryd camau gorfodi mewn perthynas ag achos penodol.
144. Mae cymal 131 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru, neu'r Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon i ymgymryd â'r cyfrifoldeb am achos cyfreithiol mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnwyd o dan Ran 6 o'r Bil neu reoliadau a wneir o dan y rhan honno. Bydd hyn yn caniatáu i awdurdod cenedlaethol ddwyn yr achos cyfreithiol yn y llys yn hytrach nag awdurdod gorfodi lleol. Gallai hyn godi os na fydd awdurdod gorfodi lleol yn gallu neu'n barod i gymryd camau cyfreithiol mewn perthynas ag achos penodol.

Cymal 132 – Cysoni diffiniad mewn hen ddeddfwriaeth hysbysebu hyd nes y ceir un newydd

145. Mae cymal 132 yn diwygio'r diffiniad o 'cynhyrchion tybaco' yn Neddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002, adran 1 (Dehongli), i gyd-fynd â'r diffiniad yn y Bil hwn.

Cymal 133 – Pŵer i estyn deddfwriaeth hysbysebu

146. Mae cymal 133 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio Rhan 6 a Deddf Cyfathrebu 2003 drwy estyn cwrdd y cynhyrchion a ddelir i gynnwys unrhyw ddyfais sy'n ei gwneud yn bosibl i gynnyrch tybaco gael ei ddefnyddio (megis dyfais cynhesu tybaco), neu eitem y bwriedir iddi fod yn rhan o'r cyfryw ddyfais. Cyn gwneud rheoliadau o dan y cymal hwn, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban a Swyddfa'r Weithrediaeth yng Ngogledd Iwerddon os bydd darpariaethau'r rheoliadau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y deddfwrfeydd datganoledig. Mae'r pŵer hwn yn sicrhau bod modd i ddyfeisiau ar gyfer defnyddio tybaco fod yn destun yr un gwaharddiadau hysbysebu a hyrwyddo â chynhyrchion tybaco, ac yn sicrhau bod y deddfwriaeth yn ddiogel ar gyfer y dyfodol ac yn hyblyg.

Cymal 134 – Cymhwyso i'r Goron

147. Mae cymal 134 yn darparu bod Rhan 6 o'r Bil ac unrhyw reoliadau a wneir o dan Ran 6 yn rhwymo'r Goron. Mae hyn yn golygu bod y cyfyngiadau ar hysbysebu a noddi yn gymwys mewn perthynas â phob corff a phob person sy'n gweithredu fel gweision y Goron megis adrannau'r llywodraeth, carchardai sy'n cael eu rhedeg gan wasanaeth carchardai Ei Fawrhydi, ac mewn perthynas ag aelodau o'r lluoedd arfog. Ni fydd y Goron ei hun yn atebol am drosedd o dan y Rhan hon (nid yw hyn yn wir am bersonau sy'n gwasanaethu'r Goron megis gweision sifil neu gyflogaion carchardai) ond caiff llys ddatgan anghyfreithlondeb mewn perthynas â gweithred (neu anwaith) y byddai'r Goron fel arall yn atebol yn droseddol amdani (neu amdano).

Cymal 135 – Dehongli

148. Mae cymal 135 yn rhoi'r diffiniadau ar gyfer Rhan 6 ac mae'n hunanesboniadol.

Rhan 7 – Mannau di-fwg, manau di-fêp a manau eraill â gwaharddiadau

149. Mae Rhan 7 yn ei gwneud yn bosibl creu manau di-fwg, manau di-fêp a manau lle gwaherddir thybaco wedi'i gynhesu yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae Rhan 7 yn adlewyrchu'r sefyllfa amrywiol sydd ar waith ar hyn o bryd ym mhob gwlad mewn perthynas â manau di-fwg ac yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion pob gwlad i greu manau eraill â gwaharddiadau.
150. Yng Nghymru, daeth Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg etc. (Cymru) 2007 i rym ac roeddent yn pennu ystyr mangreoedd 'caeedig' neu 'sylweddol gaeedig', a

fyddai, at ddibenion Deddf Iechyd 2006, yn fannau cyhoeddus di-fwg, gan gynnwys gweithleoedd. Cyflwynwyd deddfwriaeth debyg mewn rhannau eraill o'r DU yn 2007 hefyd. Yn 2021, daeth Pennod 1 o Ran 3 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("Deddf 2017") a Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020 i rym yng Nghymru yn unig, gan estyn y gofynion di-fwg i fannau ychwanegol, gan gynnwys tiroedd ysbytai, tiroedd ysgolion, meysydd chwarae cyhoeddus a lleoliadau gofal dydd a gwarchod plant awyr agored.

151. Mae adran 13 o Ddeddf 2017 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddynodi mangreoedd di-fwg ychwanegol yng Nghymru. Nid oes angen i'r mangreoedd hyn fod yn gaeedig nac yn sylweddol gaeedig (h.y. gallant fod yn fannau agored). Dim ond os bydd Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni bod dynodi'r mangreoedd hyn yn rhai di-fwg yn debygol o gyfrannu tuag at hybu iechyd pobl Cymru y gallant ddynodi mangreoedd di-fwg ychwanegol. Gellir gwneud esemptiadau, er enghraifft i ganiatáu i'r person sy'n gyfrifol am y fangre ddynodi ardaloedd lle y caniateir ysmegu. Nid yw'r pŵer yn adran 13 o Ddeddf 2017 wedi cael ei ddefnyddio eto. Mae adran 15 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer cerbydau di-fwg.
152. Nid oedd cyfyngiadau manau di-fwg yn Neddf 2017 yn gymwys i'r Goron ac mae'r un dull gweithredu wedi cael ei fabwysiadu ar gyfer y cymal hwn er mwyn sicrhau dull deddfwriaethol cyson. Mae hyn yn golygu nad yw'r cyfyngiadau hyn yn gymwys i bob corff a phob person sy'n gweithredu fel gweision y Goron megis adrannau'r llywodraeth, carchardai sy'n cael eu rhedeg gan wasanaeth carchardai Ei Fawrhydi, ac aelodau o'r lluoedd arfog. Fodd bynnag, gall cyrff y llywodraeth gyflwyno cyfyngiadau tebyg ac eithrio o dan Ddeddf 2017 ac maent wedi gwneud hynny'n flaenorol mewn perthynas ag ysmegu.
153. Y cymalau perthnasol yn y Rhan hon sy'n bodloni'r prawf yn RhS 29 yw:
- Cymalau 147 i 152 – Cymru

Cymalau 147 i 152 – Cymru

154. Mae cymal 147 yn diwygio Deddf 2017, fel bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau o dan adran 13 (manau di-fwg ychwanegol) ac adran 15 (cerbydau di-fwg).
155. Mae cymal 148 yn diwygio adran 15(3)(d) o Ddeddf 2017 i alluogi Gweinidogion Cymru i nodi mewn rheoliadau a wneir o dan adran 15(1) mewn perthynas ag eithriadau i gerbydau di-fwg, bersonau a gaiff ddynodi rhannau o gerbyd yn rhai nad ydynt yn ddi-fwg.
156. Mae cymal 149 yn diwygio gofynion Deddf 2017 ynghylch arwyddion dim ysmegu i ddarparu bod rhaid i berson sy'n meddiannu neu'n rheoli safle dim ysmegu sicrhau bod arwyddion dim ysmegu yn cael eu harddangos yn y fangre neu'n agos iddi, yn unol â'r gofynion a osodir gan rheoliadau sy'n caniatáu, ymhlith pethau eraill, gosod gofynion ynghylch cynnwys ac edrychiad arwyddion a sut a ble y maent i'w harddangos. Mae hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd na'r gofynion presennol. Mae'r rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. Mae'r cymal hwn yn darparu hefyd y caiff rheoliadau o

dan adran bresennol 17(3), sy'n darparu ar gyfer gosod dyletswydd debyg mewn perthynas â mangreodded a cherbydau di-fwg ychwanegol, osod yr un gofynion ynghylch cynnwys, edrychiad etc arwyddion. Mae'r rheoliadau hyn eisoes yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

157. Mae cymal 150 yn diwygio Deddf 2017 i fewnosod pennod newydd ynglŷn â fepio, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn dynodi manau neu gerbydau yng Nghymru yn rhai di-fêp ond dim ond os ydynt eisoes yn ddi-fwg. Mae'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae'r cymal yn ei gwneud yn drosedd i berson fepio mewn man neu gerbyd lle na chaniateir fepio ac yn gosod dyletswydd ar berson sy'n rheoli man o'r fath neu yrrwr cerbyd o'r fath i atal person rhag defnyddio fêp yn ei fangre neu yn ei gerbyd; fel arall byddant yn cyflawni trosedd.
158. Mae'r cymal hefyd yn gosod dyletswydd ar berson sy'n meddiannu man di-fêp neu sydd â chyfrifoldebau am reoli man di-fêp neu berson sy'n rheoli cerbyd di-fêp i osod arwyddion dim fepio a sicrhau eu bod yn cael eu harddangos mewn ffordd ddigonol. Caiff rheoliadau bennu gofynion penodol y mae'n rhaid i'r arwyddion hyn gydymffurfio â nhw, yn ogystal â chreu eithriadau mewn perthynas â'r ddyletswydd i arddangos arwyddion dim fepio yn unol â'r gofynion mewn rheoliadau ar gyfer cerbydau. Mae'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.
159. Mae amddiffyniadau i'r troseddau gwahardd fepio, a hynny'n unig mewn perthynas â pherfformwyr sy'n defnyddio fêp di-nicotin pan fo cyfiawnhad dros ei ddefnyddio er mwyn cadw cywirdeb artistig y perfformiad.
160. Mae cymal 151 yn diwygio Deddf 2017 i fewnosod pennod newydd ynglŷn â thybaco wedi'i gynhesu. Mae hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn dynodi manau neu gerbydau yng Nghymru i wahardd y defnydd o dybaco wedi'i gynhesu ynddynt, ond dim ond os yw'r cyfryw fannau eisoes yn rhai di-fwg. Mae'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae'r cymal yn ei gwneud yn drosedd i berson ddefnyddio tybaco wedi'i gynhesu mewn man neu gerbyd lle na chaniateir tybaco. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar berson sy'n rheoli man lle na chaniateir tybaco wedi'i gynhesu neu sy'n ymwneud â rheoli man o'r fath, neu ar yrrwr cerbyd lle na chaniateir tybaco wedi'i gynhesu ac unrhyw berson arall a bennir mewn rheoliadau ar gyfer cerbydau, i atal person rhag defnyddio dyfais cynhesu tybaco yn ei fangre neu yn ei gerbyd.
161. Mae'r cymal hefyd yn darparu bod rhaid i berson sy'n meddiannu man lle y gwaherddir tybaco wedi'i gynhesu, neu sy'n ymwneud â rheoli man o'r fath neu sydd â chyfrifoldebau am reoli man o'r fath, osod arwyddion dim tybaco wedi'i gynhesu, a sicrhau eu bod yn cael eu harddangos mewn ffordd ddigonol. Caiff Gweinidogion Cymru nodi gofynion penodol y mae'n rhaid i'r arwyddion hyn gydymffurfio â nhw, mewn rheoliadau, yn ogystal â chreu eithriadau mewn perthynas â'r ddyletswydd i arddangos arwyddion yn unol â'r gofynion yn y rheoliadau ar gyfer cerbydau. Mae'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

162. Rwy'n ceisio sicrwydd gan Lywodraeth y DU y bydd cymalau 150 a 151 yn cyd-fynd â gofynion Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

Rhan 8: Cyffredinol

163. Mae Rhan 8 (cymalau 159 i 171) yn darparu cymalau cyffredinol sy'n gymwys i'r Bil ac sy'n rychwantu'r DU gyfan.

164. Y cymalau perthnasol yn y Rhan hon sy'n bodloni'r prawf yn RhS 29 yw:

- Cymalau 160, 161, 163, 165 i 170 – Cyffredinol.

165. Mae cymal 160 yn cyflwyno Atodlen 21 sy'n gwneud diwygiadau pellach o ganlyniad i'r Bil hwn ac mae'n hunanesboniadol.

166. Mae cymal 161 yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n ganlyniadol ar y Bil hwn ac a gaiff ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfwriaeth a basiwyd neu a wnaed cyn y Bil hwn neu yn yr un sesiwn ag ef (gan gynnwys darpariaeth a wneir gan y Bil hwn). Bydd unrhyw reoliadau a wneir i ddiwygio, diddymu neu ddirymu deddfwriaeth sylfaenol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Bydd unrhyw reoliadau eraill o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

167. Mae cymal 163 yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth sy'n ganlyniadol ar Ran 1 (gwerthu a dosbarthu), a hefyd ar gymalau 147 i 152 (Mannau di-fwg, manau di-fêp a manau â gwaharddiadau eraill) ac Atodlen 19 (Diwygiadau canlyniadol ar adrannau 147 i 152) i'r Bil hwn.

168. Mae'r cymal yn darparu mai dim ond os byddai'r ddarpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru pe bai'n cael ei gynnwys mewn Deddf gan y Senedd y gall y pŵer gael ei ddefnyddio gan Weinidogion Cymru. Caiff unrhyw reoliadau ddiwygio, neu ddiddymu neu ddirymu darpariaeth a wnaed gan neu o dan Ddeddf a basiwyd cyn y Bil hwn neu yn yr un sesiwn Seneddol â'r Bil hwn neu Ddeddf neu Fesur gan Senedd Cymru a basiwyd cyn y Bil hwn. Bydd unrhyw reoliadau sy'n diwygio neu'n diddymu darpariaethau a wnaed gan Ddeddf, neu Ddeddf neu Fesur gan Senedd Cymru yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Bydd unrhyw reoliadau eraill o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol, oni bai eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, ac os felly byddant yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

169. Mae cymal 165 yn darparu, pan fydd rheoliadau yn cael eu gwneud o dan y Bil, gan gynnwys gan Weinidogion Cymru, y caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ganlyniadol, atodol, ddeilliadol, drosiannol, neu arbed ac mae'n caniatáu i reoliadau wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol a darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol rannau o'r DU. Nid yw hyn yn gymwys i reoliadau a wneir o dan gymal 168 (Cychwyn: Rhannau 1 i 4), cymal 169 (Cychwyn: Rhannau 5 i 8), na chymal 170 (Darpariaeth drosiannol). Bydd y weithdrefn seneddol yn unol â'r pŵer sylweddol perthnasol.

170. Mae cymal 166 yn darparu'r weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau o dan y Bil. Bydd rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru o dan y Bil hwn yn cael eu gwneud drwy offeryn statudol. Mae'r cymal yn diffinio "y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol" ac "y weithdrefn penderfyniad negyddol" yng nghyd-destun y Bil hwn.

171. Mae cymal 167 yn darparu ar gyfer graddau'r Bil hwn. Mae tabl sy'n nodi rhychwant tiriogaethol pob cymal yn y Bil i'w weld yn Atodiad A o'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil <https://bills.parliament.uk/bills/3879/publications>. Mae rhychwant gwahanol Rannau'r Bil fel a ganlyn:

- a. Mae Rhan 1 yn rhychwantu Cymru a Lloegr yn unig.
- b. Mae Rhan 2 yn rhychwantu'r Alban yn unig.
- c. Mae Rhan 3 yn rhychwantu Gogledd Iwerddon yn unig.
- d. Mae Rhannau 4, 5 a 6 a'r Rhan hon o'r Bil yn rhychwantu Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Bydd i unrhyw ddiwygiad neu ddiidymiad a wneir gan y Bil yr un rhychwant â'r ddarpariaeth sy'n cael ei diwygio neu ei diddymu.

172. Mae cymal 168 yn darparu'r dyddiadau cychwyn ar gyfer amrywiol gymalau'r Bil yn Rhannau 1 i 4. Er mwyn rhoi digon o amser i fusnesau baratoi ar gyfer gweithredu'r mesurau yn y Bil, mae adran gychwyn y Nodiadau Esboniadol yn rhoi crynodeb ac esboniad manwl o'r dyddiadau cychwyn hyn. Mae cymal 168 yn nodi'r darpariaethau cychwyn allweddol yn Rhannau 1 a 4 mewn perthynas â Chymru. Daw'r cymalau hyn i rym chwe mis i'r diwrnod y bydd y Bil yn cael ei basio, ac eithrio:

- Unrhyw ddarpariaeth yn Rhannau 1 i 3, neu ddiwygiad a wneir gan Rannau 1 i 3, pan fo'n rhoi pŵer i wneud rheoliadau neu pan fo'n ymwneud ag arfer y pŵer. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yw'r rhain ac nid oes angen cyfnod gweithredu i gychwyn y pwerau ac felly dônt i rym ar y diwrnod y mae'r Bil yn cael ei basio.
- Mae mesurau sy'n ymwneud â'r oedran gwerthu newydd ar gyfer tybaco etc yn dod i rym ar 1 Ionawr 2027 pan fydd plant a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009 yn cael eu pen-blwydd yn 18 oed.
- Daw cymal 19 (Gwahardd manwerthu cynhyrchion tybaco etc yng Nghymru heb drwydded), cymal 20 (Troseddau mewn cysylltiad â thrwyddedau: Cymru), cymal 21 (Cosbau ariannol am dorri amodau trwydded: Cymru), cymal 22 (Diddymu cofrestr o fanwerthwyr cynhyrchion tybaco a nicotin yng Nghymru etc), Atodlen 3 (Cynllun trwyddedu manwerthu: Cymru) ac Atodlen 4 (Cosbau ariannol am dorri amodau trwydded fanwerthu: Cymru) i rym ar y cyfryw ddiwrnod ag a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn. Caiff y gorchymyn bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol. Mae'r pŵer hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol (cymal 166(1)).
- Daw cymal 40 ac Atodlen 5 (Rhoi tybaco etc i bobl dan oed yng Nghymru) i rym ar y cyfryw ddiwrnod ag a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

173. Mae cymal 169 yn nodi'r darpariaethau cychwyn allweddol yn Rhannau 5, 6, 7 ac 8 mewn perthynas â Chymru, sef:

- Mae Rhan 5 (Gofynion ynglŷn â Chynhyrchion a Gwybodaeth etc) yn cynnwys pwerau dirprwyedig ac felly daw i rym ar y diwrnod y caiff y Bil ei basio.
- Daw Rhan 6 (Hysbysebu a Noddi), cymal 125 (Noddi: fepio a nicotin a chynhyrchion eraill), cymal 132 (Cysoni' diffiniad o "cynnyrch tybaco" mewn hen ddeddfwriaeth), cymal 134 (Cymhwysio i'r Goron) a chymal 135 (Dehongli Rhan 6) i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddeufis yn dechrau â'r diwrnod y caiff y Bil ei basio. Daw gweddill y darpariaethau yn Rhan 6 i rym ar y cyfryw ddiwrnod ag a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau.
- Daw Rhan 7 (mannau di-fwg, manau di-fêp a manau â gwaharddiadau eraill) i rym ar y cyfryw ddiwrnod ag a bennir gan yr awdurdod cenedlaethol priodol. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddod â chymalau 147 i 152 ac Atodlen 19 i rym. Caiff y gorchymyn bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol. Mae'r pŵer hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol (cymal 166(1)).
- Daw Rhan 8 (Cyffredinol) i rym ar y diwrnod y caiff y Bil ei basio, ac eithrio cymal 160 (Diwygiadau canlyniadol pellach) ac Atodlen 21 (Diwygiadau canlyniadol: cyffredinol) sy'n dod i rym ar y cyfryw ddiwrnod ag y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ei bennu drwy reoliadau.

174. Mae cymal 170 yn rhoi pwerau i wneud darpariaethau trosiannol ac arbed. Mae cymal 170(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud, drwy reoliadau, ddarpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn perthynas â chymal 40 ac Atodlen 5, cymalau 147 i 152, Atodlen 19 yn dod i rym. Mae'r pŵer hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol (cymal 166(1)). Mae'n cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

175. Yn fy nisgrifiad o ddarpariaethau'r Bil (uchod), rwyf wedi nodi lle y gellir dod o hyd i bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth. Pan fo'r pŵer yn cael ei roi i Weinidogion Cymru, rwyf hefyd wedi nodi pa un o weithdrefnau'r Senedd sy'n gymwys i'r pŵer.
176. Mae cymalau 45, 95 a 100 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru mewn meysydd sydd, yn fy marn i, yn ymwneud â materion datganoledig.
177. Mae cymal 123 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau heb fod angen ceisio cydsyniad Gweinidogion Cymru mewn maes sydd, yn fy marn i, yn ymwneud â materion datganoledig.
178. Byddaf yn ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 45, 95, 100 a 123 i geisio'r sicrwydd cyfansoddiadol angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y darpariaethau hyn yn cyd-fynd ag Egwyddorion y Cabinet ar Ddeddfwriaeth y DU.

Barn Llywodraeth y DU ar yr angen i gael cydsyniad

179. Mae Llywodraeth y DU wedi ceisio cydsyniad ar gyfer y Bil cyfan ac eithrio cymalau 5, 13, 16-18, 25, 29, 33, Rhannau 2, 3 a 4, cymalau 95, 100, 109, 114-120, 123, 126, 127, 136-147, 153-159, 162 a 164 gan fod Llywodraeth y DU wedi barnu nad yw'r broses memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn ofynnol ar gyfer y rhain.
180. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag asesiad Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 5, 13, 16-18, 33, Rhannau 2 a 3, cymalau 136-147, 153-159, 162 a 164.
181. Fodd bynnag, mae safbwyntiau gwahanol ynglŷn â'r angen am gydsyniad ar gyfer cymalau 25, 29, Rhan 4 a chymalau 95, 100, 109, 114-120, 123, 126 a 127. Yn fy marn i, mae'r cymalau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i fater datganoledig sef iechyd y cyhoedd. O ganlyniad, yn unol â RhS29, mae'n ofynnol cael cydsyniad y Senedd.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Tybaco a Fêps

182. Yng Nghymru, mae tua 13% o bobl 16 oed a throsodd yn ysmegu: <https://www.llyw.cymru/ffordd-o-fyw-oedolion-arolwg-cenedlaethol-cymru>. Uchelgais Llywodraeth Cymru yw i Gymru fod yn ddi-fwg erbyn 2030: <https://www.llyw.cymru/strategaeth-rheoli-tybaco-i-gymru>. Er bod cyfraddau ysmegu wedi gostwng 23% ers 2010, rydym am helpu mwy o ysmygwyr i roi'r gorau iddi ac atal pobl ifanc rhag dechrau ysmegu yn y lle cyntaf.
183. Ysmegu yw un o brif achosion marwolaethau a salwch yng Nghymru o hyd. Yn ôl dadansoddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, dros y cyfnod 2020-22, amcangyfrifwyd bod 3,845 o farwolaethau y flwyddyn ymhlith pobl 35 ac yn hŷn yng Nghymru o ganlyniad i ysmegu. <https://phw.nhs.wales/news/over-10-percent-of-deaths-in-wales-due-to-smoking/>. Mae hyn yn golygu y gellir priodoli 10.7% ar gyfartaledd o'r holl farwolaethau yng Nghymru ymhlith pobl 35 oed a throsodd yn ystod y blynyddoedd hyn i ysmegu. Yn ogystal â bod yn brif achos salwch a marwolaethau y gellir eu hosgoi, dangosodd y dadansoddiad hefyd y gellir priodoli mwy na 17,000 o dderbyniadau i'r ysbyty bob blwyddyn yng Nghymru i ysmegu, sy'n ychwanegu cryn bwysau ar y system gofal iechyd. Roedd cyfraddau derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu priodoli i ysmegu hefyd gymaint â dwywaith yn uwch i drigolion y cymunedau mwyaf difreintiedig o'u cymharu â'r rhai yn y cymunedau lleiaf difreintiedig.
184. Mae ysmegu hefyd yn ffactor risg ar gyfer canlyniadau gwael i famau a babanod, mae'n cynyddu'r risg o farw-enedigaethau yn sylweddol a gall achosi asthma mewn plant. Mae pobl nad ydynt yn ysmegu hefyd yn dod i gysylltiad â mwg ail-law, a all fod yn arbennig o niweidiol i blant a phobl â chyflyrau fel asthma: <https://www.nhs.uk/live-well/quit-smoking/passive-smoking-protect-your-family-and-friends/>. Nod y Bil felly yw diogelu cenedlaethau'r dyfodol rhag niwed tybaco a chynhyrchion ysmegu eraill ac mae'n cefnogi ein huchelgais i fod yn ddi-fwg erbyn 2030.

185. Mae fêps (y cyfeirir atynt hefyd fel sigarêts electronig, e-sigarêts, system dosbarthu nicotin electronig (ENDS), neu anweddwyr) yn gweithio drwy wresogi hydoddiant o ddŵr, cyflasyn, propylen glycol (neu glyserin llysiâu) ac, fel arfer, nicotin er mwyn creu anwedd y bydd y defnyddiwr yn ei fewnanadlu. Cyfeirir yn aml at y weithred o ddefnyddio fêp fel 'fepio'. I ysmygwyr, gall fêps fod yn ffordd effeithiol o roi'r gorau i ysmegu. Fodd bynnag, nid argymhellir fepio fyth i blant, pobl ifanc a'r rhai nad ydynt yn ysmegu ac mae'n dwyn y risg o fynd yn gaeth iddo. Hefyd, mae effeithiau hirdymor fepio yn anhysbys.
186. Er ei bod yn anghyfreithlon gwerthu fêps i bobl dan 18 oed, gwyddys bod plant a phobl ifanc yn ogystal â phobl nad ydynt erioed wedi ysmegu yn eu defnyddio. Mae data Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod 7% o bobl ifanc 11–16 oed yn defnyddio fêps yn wythnosol. Mae hyn yn gynydd o 5.4% yn 2021. Ar gyfer disgyblion blwyddyn 11, y ffigur yw 15.9%, sy'n gynydd o'i gymharu â 13.6% yn 2021. <https://icc.gig.cymru/newyddion1/croesawu-rheoliadau-fepio-newydd-wrth-ir-defnydd-o-feps-gynyddu-ymhlith-pobl-ifanc/>.
187. Bydd y Bil yn darparu newidiadau deddfwriaethol ledled y Deyrnas Unedig. Bydd yn achub degau o filoedd o fywydau ac yn arbed biliynau o bunnoedd i'r GIG. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad ledled y DU yn dangos cefnogaeth eithriadol i'r mesurau.
188. Rwyf o'r farn y byddai'n briodol i'r Bil hwn ar gyfer y DU wneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru. Mae'r Bil yn cynnig cyfle i gyflawni cenhedlaeth ddi-fwg ac i amddiffyn plant rhag cynhyrchion fepio a chynhyrchion nicotin eraill yng Nghymru, ac mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'r rhain yn amcanion polisi allweddol i Lywodraeth Cymru.
189. O ystyried natur y broses rheoleiddio a gorfodi mewn perthynas â thybaco, fêps, tybaco llysiuol a chynhyrchion nicotin, a'r gofynion o ran hysbysebu a noddi cynhyrchion, ystyrir mai dull cydweithredol rhwng y pedair gwlad fyddai'r ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o weithio i Gymru a'r DU. Fel man cychwyn, dylid sicrhau bod y gyfundrefn reoleiddio, cyn belled ag y bo'n bosibl, yn unfath ledled y DU neu o leiaf ledled Prydain Fawr. At hynny, hyd y gellir, dylai gael ei chyflwyno ar yr un pryd. Fel arall, mae'n bosibl y bydd cynhyrchion sy'n dderbyniol mewn un rhan o'r DU yn gallu dod i mewn i ran arall o'r DU lle na fyddant yn bodloni'r rheoliadau o bosibl.
190. Mae'r Bil yn golygu y gellir cyflawni amcanion polisi mewn ffordd sydd hefyd yn sicrhau cydlyniaeth a chysondeb ledled y DU. Mae'r dull hwn yn cynnig cyfundrefn reoleiddio unigol i'r DU gyfan fel ffordd o sicrhau system gydlynol y gellir ei gweithredu ledled y DU gyfan mewn perthynas â'r cynhyrchion hyn. Mae dull gweithredu tebyg wrthi'n cael ei fabwysiadu mewn perthynas â chyflwyno'r gwaharddiad ar fêps untro o 1 Mehefin 2025, o ystyried manteision cydnabyddedig cysoni'r broses o gyflwyno'r gofynion i fyd busnes, defnyddwyr yn ogystal â'r awdurdodau gorfodi.

191. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau lle y nodwyd bod dull gweithredu ar gyfer Cymru yn unig yn briodol. Er enghraifft, rheoleiddio arddangosiadau mewn mannau gwerthu ar gyfer fêps a chynhyrchion nicotin eraill yn ogystal â chyflwyno mannau lle y gwaherddir fêps a thybaco wedi'i gynhesu.
192. Ar wahân i'r darpariaethau yn y Bil, mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i wahardd gwerthu fêps untro, oherwydd eu heffeithiau amgylcheddol a'r cysylltiadau rhyngddynt a fepio ymhlith pobl ifanc:
<https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-rheoliadau-feps-untro>
193. Er mwyn gwrthannog unigolion nad ydynt yn ysmegu a phobl ifanc rhag dechrau fepio ac er mwyn codi refeniw i helpu i ariannu gwasanaethau cyhoeddus fel y GIG, bydd Llywodraeth y DU hefyd yn cyflwyno toll gartref newydd ar gynhyrchion fepio ac yn gosod toll ar fêps. Mae cynnydd ym mhris tybaco wedi helpu i leihau nifer y plant sy'n ysmegu, felly gwyddom fod y math hwn o bolisi yn effeithiol: <https://www.gov.uk/government/publications/vaping-products-duty-technical-consultation>.
194. Bydd cofrestriadau a chymeradwyaethau ar gyfer y dreth yn dechrau o 1 Ebrill 2026 a disgwylir i'r dreth fod yn weithredol o 1 Hydref 2026. Er mwyn cefnogi'r rôl y gall fêps ei chwarae wrth helpu ysmygwyr i roi'r gorau i sigarêts, caiff y doll ar dybaco hefyd ei chynyddu er mwyn cynnal y cymhelliant ariannol i ddewis fepio yn hytrach nag ysmegu.

Goblygiadau ariannol

195. Mesurau galluogi yw'r rhai sydd yn y Bil ac, o ganlyniad, ni fydd y rhan fwyaf o'r cynigion yn gosod costau uniongyrchol ar sefydliadau iechyd a gofal drwy eu deddfu yn unig. Mae'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Lloegr wedi cyhoeddi Asesiad Effaith sy'n darparu asesiad economaidd o holl elfennau'r polisi hwn: <https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/59-01/0121/impactassessment.pdf>.
196. Mae ysmegu yn arwain at gost sylweddol i gymdeithas, a chynlluniwyd y mesurau yn y Bil er mwyn mynd i'r afael â'r costau hynny, gan gynnwys costau yn y dyfodol yn deillio o effeithiau tybaco ar iechyd ac ansawdd bywyd unigolion a'r economi. Mae llywodraeth y DU yn amcangyfrif fod y costau sy'n gysylltiedig ag ysmegu oddeutu £25.8 biliwn i'r DU. Mae hyn yn cynnwys colled o £21.7 biliwn o ran cynhyrchiant bob blwyddyn drwy enillion a gaiff eu colli o ganlyniad i ysmegu, diweithdra, a marwolaethau cynnar, yn ogystal â chost o £2.2 biliwn i'r GIG ac £1.4 biliwn i'r sector gofal cymdeithasol.
197. O ran fepio, mae'r asesiad effaith yn cynnwys arfarniadau llawn o'r mesurau. Amcangyfrifir y byddai'r holl reoliadau fepio (cyfyngiadau ar gyflasynnau, gofynion pecynwaith a rheoliadau ar arddangosiadau mannau gwerthu) yn arwain at gostau i weithgynhyrchwyr, manwerthwyr a chyfanwerthwyr fêps. Byddai'r costau hyn yn cynnwys costau ymgyfarwyddo â'r rheoliadau newydd yn ogystal â gostyngiad mewn elw. Y prif fanteision iechyd a ddisgwylir o ganlyniad

i'r polisïau fepio yw gostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n dechrau fepio. Dim ond tystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael ar hyn o bryd o effeithiau iechyd fepio, yn enwedig y niwed tymor hir sy'n gysylltiedig â fepio, felly ni fu modd meintioli'r manteision iechyd a fyddai'n deillio o ostyngiad yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n dechrau fepio. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o Ganada yn awgrymu y gallai'r manteision iechyd i'r unigolyn i bob person ifanc na fydd yn dechrau fepio fod dros £14,000.

198. O ran effaith polisïau newydd ar fod yn ddi-fwg a gwahardd fêps a thybaco wedi'i gynhesu, a'r darpariaethau trwyddedu, bydd yr effaith ariannol yn dibynnu ar gwmpas y polisi a fabwysiedir mewn is-ddeddfwriaeth pan fydd asesiadau(au) effaith pellach yn cael eu cynnal i asesu costau a manteision rhoi'r polisi ar waith.
199. Adrannau Safonau Masnach awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith newydd ar yr oedran cyfreithiol ar gyfer gwerthu tybaco. Mae awdurdodau lleol eisoes yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r isafswm oedran cyfreithiol presennol ar gyfer gwerthu tybaco ac felly ni ddisgwylir y bydd llawer o gostau ychwanegol yn deillio o'r polisi oedran gwerthu. O ran gorfodi'r mesurau ar gyfer fêps, mae'n bosibl y bydd beichiau newydd ar adrannau Safonau Masnach lleol yng Nghymru wrth orfodi'r gofynion newydd a gaiff eu hasesu cyn cyflwyno unrhyw reoliadau yn y dyfodol.
200. Cafodd adrannau Safonau Masnach hefyd eu cefnogi i fynd i'r afael ag achosion o werthu cynhyrchion tybaco a fêps yn fwy cyffredinol i unigolion dan oed ac mewn ffordd anghyfreithlon drwy weithgarwch amharu a gorfodi ar lefel genedlaethol. Darparodd Llywodraeth Cymru £145,250 yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 er mwyn helpu awdurdodau Safonau masnach yng Nghymru i gymryd camau gorfodi mewn perthynas â fêps anghyfreithlon. Fel rhan o'u rôl i fynd i'r afael â chynhyrchion anghyfreithlon ledled y DU, caiff strategaeth CThEF a Llu'r Ffiniau, 'Dod â'r broblem i stop: strategaeth newydd i daclo tybaco anghyfreithlon', ei chefnogi gan dros £100 miliwn o gyllid newydd gan Lywodraeth y DU dros y 5 mlynedd nesaf er mwyn cynyddu'r gallu gorfodi ledled y DU.

Casgliad

201. Rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU gan fod angen gweithredu ar sail y DU gyfan mewn perthynas â thybaco a fêps. Byddaf yn mynd ati i ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 45, 95, 100 a 123 ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd yn unol â hynny. Rwy'n cefnogi'r cynigion polisi yn y Bil yn gryf, ac felly rwy'n argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydysyniad i'r Bil hwn.

Sarah Murphy AS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

20 Tachwedd 2024